Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymgynghoriad ar ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio ar gyfer 2023/24

- Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb CNC

Crynodeb gweithredol

Fel rhan o'n hymrwymiad i asesu ein darpariaeth gwasanaeth yn barhaus, adolygu ein ffioedd ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio, a sicrhau bod prosesau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, comisiynodd CNC raglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC), sef adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau trwyddedu a ddarperir i'n cwsmeriaid.

Mae cynlluniau codi tâl CNC yn seiliedig ar yr egwyddor o adennill costau yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sef rheolau a rhwymedigaethau Trysorlys Ei Fawrhydi o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Ein nod yw datblygu cynllun codi tâl sy'n codi'r ffioedd cywir am ein gweithgareddau a bod cost ein gwaith trwyddedu a chydymffurfio yn cael ei adennill gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio, gan osgoi cymhorthdal drwy'r pwrs cyhoeddus (Cymorth Grant). Drwy adennill costau'n llawn, mae hyn yn helpu i sicrhau bod CNC yn gallu rheoleiddio a diogelu amgylchedd Cymru yn well, gan gyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Mae CNC wedi ymrwymo i wella ein prosesau'n barhaus gan eu gwneud mor syml ac effeithlon â phosibl, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr a llai o faich ar fusnes. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar newidiadau i'r ffioedd a'r taliadau am drwyddedau newydd a diwygiedig. Yn ogystal, gwnaethom hefyd gynnal asesiad lefel uchel o'n taliadau parhau blynyddol .

Cynhaliodd CNC ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o 10 Hydref 2022 i rannu ein ffioedd rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2023/24 a cheisio adborth. Cawsom 102 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o unigolion, busnesau a sefydliadau. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r adborth a dderbyniwyd ac rydym wedi ystyried yr holl ymatebion cyn cwblhau ein cynigion.

Comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol gennym i ddadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn thematig, a gynhyrchodd y themâu cyffredinol a ganlyn:

- Beirniadaeth o amseriad ein cynigion codi tâl.
- Yr awgrym y dylai taliadau rheoleiddio gael eu hariannu'n rhannol gan Gymorth Grant
- Y farn y dylai CNC gynnig mwy o dryloywder ar y modelau a ddefnyddir i ddylunio'r ffioedd arfaethedig.
- Y potensial am ffioedd uwch i atal ymddygiad amgylcheddol da a chynyddu math a graddfa gweithgareddau anghyfreithlon neu nad ydynt yn cydymffurfio.
- Y farn y dylai CNC wneud mwy i wella canllawiau a phrosesau ac y dylai geisio gwneud ein gwasanaethau trwyddedu a rheoleiddio ehangach yn fwy effeithlon.
- Yr awgrym y dylai perfformwyr gwael a/neu lygrwyr dalu mwy am y gwasanaethau rheoleiddio y maent yn eu defnyddio.

Cynhyrchodd y dadansoddiad annibynnol hefyd gyfres o themâu cyfundrefn-benodol. Mae CNC wedi ymateb i'r themâu cyffredinol a chyfundrefn-benodol yn y ddogfen ymateb hon i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac adolygiad o'r holl adborth a dderbyniwyd, mae CNC wedi gwneud y diwygiadau canlynol i'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud y gwaith sicrwydd angenrheidiol ar y cynigion o ran trwyddedu. Yna, caiff cyngor ei roi i'r Gweinidog a chaiff penderfyniad ei wneud wedi hynny. Bydd ffioedd CNC ar gyfer trwyddedau yn aros ar gyfraddau 2022/23 hyd nes y cânt eu disodli gan gynllun codi tâl newydd, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cwsmeriaid am yr amserlen ar gyfer hynny maes o law.

O 1 Ebrill 2023, bydd taliadau cynhaliaeth blynyddol CNC yn cynyddu 6% mewn wyth maes fel yr amlinellir yn ein cynigion.

1/ Ffioedd tynnu a chronni adnoddau dŵr

Roedd yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad yn awgrymu y byddai ein ffioedd newydd arfaethedig yn arwain at gostau gormodol i'r mathau hyn o geisiadau. O ran cael gwared ar goredau yn benodol, y pryder yw y gall y gweithgaredd hwn achosi niwed amgylcheddol os na chaiff ei wneud yn gynaliadwy.

Mewn ymateb, byddwn yn cadw'r ffioedd ymgeisio presennol ar gyfer 2022/23 i ategu gweithgarwch anfasnachol yr ymgymerir ag ef yn gyfan gwbl a dim ond er budd amgylcheddol o fewn Adnoddau Dŵr (ac eithrio gweithgareddau i gyflawni Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y cwmni dŵr). Defnyddir ffioedd parhau adnoddau dŵr i ariannu gweddill y gost o benderfynu ar y ceisiadau hyn. Bydd y ffioedd ymgeisio hyn yn £15 ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr a £1,500 ar gyfer trwyddedau cronni dŵr neu drwyddedau trosglwyddo.

2/ Ffi am fân ddiwygiad ar gyfer trwyddedau rhywogaethau

Roedd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cwestiynu p'un a oedd rhai o'r taliadau ar gyfer tasgau gweinyddol yn rhy uchel fel y'u cynigiwyd, gan na fyddent yn cymryd yn hir i'w cwblhau.

Cytunwn fod rhai tasgau gweinyddol yn cymryd llai o amser nag eraill, ac felly byddwn yn codi £73 am fân ddiwygiad a thâl am ddiwygiadau mwy cymhleth ar gyfradd fesul awr o £125.

3/ Ymgynghori ar yr offeryn newydd i ddisodli OPRA ar gyfer ffioedd gosod

Drwy ein hymgynghoriad, cynigiwyd ffordd newydd gennym o gyfrifo ffioedd ymgeisio am osodiadau a fydd yn disodli'r system OPRA bresennol. Roedd yr adborth yn awgrymu nad oedd ymatebwyr yn gallu gwneud sylw llawn gan nad oedd manylion o ran sut y byddai'r offeryn yn effeithio arnynt ar gael.

Byddwn nawr yn ymgynghori'n ffurfiol ar fanylion yr offeryn bandio newydd a gynigir, er mwyn darparu gwell tryloywder o'n taliadau i gwsmeriaid perthnasol.

Byddwn yn parhau i gael ffioedd ymgeisio ar sail OPRA ar y lefelau presennol hyd nes yr ymgynghorir ar yr offeryn bandio newydd ac iddo gael ei fireinio yn ôl yr angen a'i

roi ar waith. Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu gweithredu'r offeryn bandio a'r ffioedd cysylltiedig erbyn diwedd 2023.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 2
Cyflwyniad 6
Ein cynigion 6
Sut y gwnaethom ymgynghori 8
Sut y cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried 8
Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru 9
Y canlyniadau meintiol 9
Yr ymatebion ansoddol 9
A Y prif themâu yn yr ymatebion – Cyffredinol 10
B Y prif themâu yn yr ymatebion – Gosodiadau 30
C Y prif themâu yn yr ymatebion – Gwastraff ar y safle 34
D Y prif themâu yn yr ymatebion – Cronfeydd dŵr 37
E Y prif themâu yn yr ymatebion – Adnoddau dŵr 39
F Y prif themâu yn yr ymatebion – Ansawdd dŵr 44
G Y prif themâu yn yr ymatebion – Trwyddedau rhywogaethau 50
H Cyngor cyn ymgeisio 56
I Ffioedd parhau blynyddol ar gyfer 2023/24 57
J Sylwadau eraill a gawsom 59
K Newidiadau a wnaed i'n cynllun terfynol o ganlyniad i'r ymgynghoriad 60
L Awgrymiadau a gafwyd 61
Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar ffioedd 64
Atodiad 2 – 'Adroddiad Ymgynghoriad ar Adolygiad Strategol o Godi Tâl Cyfoeth Naturiol Cymru, Ionawr 2023' Gan ECF 64
Atodiad 3 – Crynodeb o ymatebion 64
Atodiad 4 – Ymatebion llawn 64

Cyflwyniad

Wrth ddatblygu cynllun codi tâl Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2023/24 fe wnaethom ymgynghori â'n rhanddeiliaid ac rydym wedi ystyried yr holl ymatebion cyn cwblhau ein cynigion.

Roedd yr *ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio 2023/2024* yn fyw am 12 wythnos ac fe ddaeth i ben ar 7 Ionawr 2023. Cyn yr ymgynghoriad, gwnaethom gwrdd â'n Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau[1] i drafod a mireinio'r cynigion ar sail adborth gan ein prif randdeiliaid a'n grwpiau cynrychioladol. Gwnaethom hefyd weithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid sefydledig a phartïon eraill â diddordeb er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Gwnaethom ddefnyddio ein hwb ymgynghori i gynnal yr ymgynghoriad a choladu'r ymatebion. Gwnaethom hefyd dderbyn ymatebion ar-lein drwy *Citizen Space*, drwy'r post a negeseuon e-bost.

Cawsom 93 o ymatebion a gafodd eu codio drwy Citizen Space, a 9 ymateb drwy negeseuon e-bost. Rydym yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan randdeiliaid ac wedi ystyried eu barn. Gwnaethom wrando ar ymgyngoreion ac rydym wedi gwneud nifer o newidiadau, megis drwy gynnig gostyngiad ar gyfer cynlluniau sy'n llesol i'r amgylchedd (y trydydd sector, anfasnachol), a hynny drwy barhau â'r lefel bresennol o daliadau ar gyfer rhai trwyddedau adnoddau dŵr a hefyd lleihau taliadau gweinyddol ar gyfer rhai trwyddedau rhywogaethau. Rydym wedi crynhoi'r elfennau allweddol a'n hymateb yn y papur hwn er mwyn helpu i esbonio ein cynigion.

Ein bwriad yw creu cynllun ffioedd mwy cynaliadwy drwy gynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn adennill costau'n llawn.

Ein cynigion

Mae'r cynigion manwl fel y'u hamlinellwyd yn yr ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1. Ceir crynodeb isod o'r newidiadau arfaethedig hynny:

Ffioedd ymgeisio

Roedd ein hymgynghoriad yn cwmpasu'r meysydd canlynol lle roeddem yn cynnig newid neu gyflwyno ffioedd.

- Trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), gan gynnwys rheoli gwastraff, prosesau diwydiannol, gollyngiadau elifion dŵr wedi'i drin i'r amgylchedd dŵr, sylweddau ymbelydrol nad ydynt yn niwclear, gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodedig
- Trwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr
- Trwyddedau ar gyfer rhywogaethau
- Cofrestriadau a hysbysiadau cronfeydd dŵr

[1] Mae'r Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau yn cynnwys aelodau o sefydliadau masnach a sefydliadau cynrychioladol amrywiol ein rhanddeiliaid.

Cyngor cyn ymgeisio

Gwnaethom gynnig newidiadau i'r ffordd yr ydym yn diffinio ac yn cynnig cyngor cyn ymgeisio sylfaenol ar gyfer trwyddedau yr ydym yn codi tâl amdanynt, drwy ffurfioli ein ffordd o weithredu a darparu gwasanaeth cyfeirio yn unig. Gallai helpu ymgeiswyr i gwblhau adroddiadau neu gynnal asesiadau o wybodaeth yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio rag-benderfynu neu niweidio ein rôl wrth benderfynu ar gais am drwydded. Rydym yn cydnabod bod mynediad i ganllawiau cyfeirio a'r graddau y maent ar gael yn amrywio ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio, felly darperir rhagor o wybodaeth bellach yn yr atodiadau penodol ar gyfer pob maes rheoleiddio. Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar y cyngor pwrpasol y gall ymgeiswyr ofyn amdano drwy ein Gwasanaeth Cyngor Dewisol, y codir tâl amdano gan ddefnyddio cyfradd safonol fesul awr.

Ffioedd parhau blynyddol

Roedd ein hymgynghoriad yn cwmpasu'r meysydd canlynol lle roeddem yn cynnig newid ffioedd parhau blynyddol er mwyn adlewyrchu pwysau chwyddiant a'r sefyllfa o ddiffyg a ragwelir, a hynny drwy ychwanegu 6% at y taliadau canlynol.

- Ffioedd Uned Safonol ar gyfer Tynnu Dŵr.
- Ffioedd parhau trwyddedau EPR ar gyfer ansawdd dŵr .
- Ffioedd parhau trwyddedau EPR ar gyfer gweithgareddau anniwclear.
- Ffioedd blynyddol ar gyfer monitro cydymffurfedd cronfeydd dŵr.
- Ffioedd parhau trwyddedau ar gyfer gweithgareddau perygl llifogydd (ffioedd ymgeisio / parhau gyda'i gilydd)
- Ffioedd parhau trwyddedau ar gyfer rheoli peryglon damweiniau mawr (COMAH).
- Ffioedd parhau trwyddedau EPR ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU (UKETS).
- Ffioedd parhau trwyddedau ar gyfer cyfleusterau ailgylchu deunyddiau (MRF).

Nododd yr ymgynghoriad y byddai unrhyw ffioedd a thaliadau rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar gyfer 2023/2024, a hynny ar y cyfraddau presennol.

Os bydd rhagolwg Mynegai Pris Cwsmeriaid Trysorlys EF yn lleihau yn ystod y cyfnod ymgynghori neu cyn gweithredu'r newidiadau, bydd CNC yn ystyried lleihau cyfradd y cynnydd mewn ffioedd parhau fel y bo'n briodol. Arhosodd y rhagolygon Mynegai Pris Cwsmeriaid diweddaraf ar gyfer 2023/24 ar 22 Mawrth 2023 yn sefydlog ar 7%, gan olygu y bydd y cynnydd o 6% a amlinellir uchod bellach yn cael ei weithredu'n unol â chymeradwyaeth y Gweinidog.

Sut y gwnaethom ymgynghori

Cyn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ni gynnal cyfres o gyfarfodydd y Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau er mwyn amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r ymgynghoriad a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar ei gyfer er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a busnesau. Ymgysylltwyd ag arweinwyr nawdd Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses. Gwnaethom gynnal sesiynau briffio i'r cyfryngau a chyhoeddi datganiadau i'r wasg. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a nodiadau i randdeiliaid i dynnu sylw at yr ymgynghoriad agored ac i geisio ymatebion.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Hydref 2022 a 7 Ionawr 2023, a chafodd ei gynnal ar-lein gan blatfform Citizen Space er mwyn casglu ymatebion. Yn ogystal, cafwyd ymatebion ysgrifenedig dros e-bost. Roedd yr opsiynau o fewn yr ymgynghoriad ac ar gyfer ymateb ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gallai ymatebwyr ddewis pa adrannau cyfundrefn i ymateb iddynt, gan ddibynnu ar eu diddordeb.

Parhaodd y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ac amrywiol sefydliadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, megis yn ystod Ffair Aeaf Frenhinol Cymru. Gwnaethom ymateb i ymholiadau a godwyd, i fusnesau ac yn ystod sesiynau briffio i sefydliadau, ac anfonwyd nodiadau atgoffa at randdeiliaid yn nodi bod yr ymgynghoriad ar gael iddynt. Yn dilyn cynllun cyfathrebu'r rhaglen, bydd ymgysylltu'n parhau ar ffurf llythyrau at randdeiliaid allweddol, drwy ddiweddaru'r gwefannau sy'n ymwneud â thrwyddedu a thrwy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, a hynny er mwyn egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

Sut y cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried

Cafodd y dadansoddiad o'r ymatebion ei gwblhau gan ddefnyddio dull meintiol o ddadansoddi'r opsiynau ar raddfa Likert a ddewiswyd ym mhob ymateb (er enghraifft o '*Cytuno'n gryf*' i '*Anghytuno'n gryf*'), a dull ansoddol o ddadansoddi themâu yn achos yr ymatebion testun rhydd. Mae hwn yn ddull a gydnabyddir yn eang o ddadansoddi data ansoddol, sy'n ei gwneud yn bosibl i ymchwilwyr lunio mewnwelediadau a chysyniadau sy'n deillio o ddata. Mae dadansoddi thematig yn nodi patrymau ystyr. Er mwyn gwarantu y câi dadansoddiad annibynnol a diduedd ei lunio, fe wnaethom gomisiynu ECF, sef asiantaeth cyfathrebu ac ymgysylltu arbenigol, i wneud y gwaith hwn ar ein rhan.

Mae'r broses ddadansoddol yn casglu profiadau, safbwyntiau a barn yr holl ymatebwyr. Amcan y dadansoddiad thematig oedd nodi 'thema'' yn yr ymateb i bob cwestiwn ar sail y farn, y rhesymau neu'r safbwynt a roddwyd gan yr ymatebwyr. Diffiniodd ECF y themâu a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer pob ymateb, gan ychwanegu rhagor o themâu yn ôl yr angen neu briodoli sylw neu farn i un neu fwy o'r themâu a

oedd eisoes wedi'u nodi. Y nod oedd creu crynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion a gafwyd, yn hytrach na chyflwyno'n fanwl bob pwynt a godwyd.

Darparodd yr adroddiad a gyflenwyd gan ECF (yn Atodiad 2) wybodaeth i CNC megis nifer yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn, a pha gyfran o'r ymatebwyr atebodd yr opsiynau a oedd ar gael ar ffurf graddfa Likert. Nid ydym wedi pennu arwyddocâd arbennig i nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn oherwydd y dewisiadau yn yr adran ymgynghori. Ein nod yw rhoi'r un pwys i bob ymateb, pa un a yw'r ymateb wedi dod o unigolyn, busnes neu sefydliad, gan ein bod yn credu mai cynnwys yr ymateb y dylid ei ystyried, a hynny yn ei rinwedd ei hun. I grynhoi, nid yw adrodd ar thema benodol yn y ddogfen hon yn dibynnu ar nifer neu hunaniaeth yr ymatebwyr sy'n mynegi'r thema honno.

Yn achos y rheini a gyflwynodd ymatebion drwy ohebiaeth, naill ai yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein neu yn ei le, cafodd yr ymatebion hyn eu rhannu'n llawn gydag ECF hefyd, a gwnaethant gynnwys y rhain yn y dadansoddiad thematig. Cawsom sylwadau a syniadau a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ond a oedd yn berthnasol i rannau eraill o'r busnes. Cafodd y rhain eu trosglwyddo i dimoedd neu adrannau perthnasol i'w trafod yn y dyfodol.

Oherwydd bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi ein rhesymeg ar gyfer pob cynnig, os oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwneud yr un dadleuon, neu ddadleuon tebyg iawn i'w gilydd, o blaid unrhyw ran o'n cynigion, nid ydym wedi eu hailddatgan yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Cawsom gyfanswm o 102 o ymatebion drwy'r ymgynghoriad, a derbyniwyd 93 ohonynt drwy ein hwb ymgynghori ar-lein a 9 drwy negeseuon e-bost. Mae Atodiad 3 yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion.

Y canlyniadau meintiol

Mae set lawn o ganlyniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 4. Y neges gyffredinol oedd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynigion y taliadau, er bod y rhan fwyaf yn cytuno y dylai'r defnyddiwr gwasanaethau dalu. O groesgyfeirio, daeth yr ymgynghorwyr annibynnol a gafodd eu cyflogi i ddadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r casgliad na chafwyd digon o ymatebion fesul math o ymatebydd i allu dod i gasgliadau ystadegol arwyddocaol.

Yr ymatebion ansoddol

Rydym wedi ymateb i themâu a gododd yn gyson yn yr ymatebion i gwestiynau testun rhydd ein hymgynghoriad yn adran A isod. Rydym hefyd wedi ymateb i bwyntiau technegol sy'n fwy penodol i'r gyfundrefn o dan adrannau B i I. I ddod o hyd i'n hymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych, darllenwch adran A a'r cyfundrefnau sydd o ddiddordeb ichi.

Mae adrannau 'Dywedasoch Chi' yn y ddogfen yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol a nifer o ddatganiadau wedi'u haralleirio gan ddadansoddwr annibynnol.

A Y prif themâu yn yr ymatebion – Cyffredinol

A1 Amseriad y newidiadau arfaethedig i'n ffioedd

Dywedasoch chi

- Gohirio gweithredu unrhyw newidiadau i ffioedd er mwyn gallu parhau â'r deialog a thrafod atebion ychwanegol.
- Cyflwyno'r cynnydd mewn ffioedd yn raddol i leihau'r effaith uniongyrchol.
- Potensial i amseriad y cynnydd gael effaith negyddol ar fusnesau.
- Potensial o golli swyddi oherwydd costau uwch.
- Mae cyflwyno ffioedd uwch yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn golygu mai amser cyfyngedig sydd gan sefydliadau i gynllunio ar gyfer costau uwch.
- Bydd yn gwaethygu effaith chwyddiant a'r argyfwng costau byw.
- Ni fydd busnesau'n gallu trosglwyddo'r cynnydd yn y gost i gwsmeriaid oherwydd yr argyfwng costau byw.
- Nid yw gweithredu hyn ar 1 Ebrill yn rhoi digon o amser i weithredwyr reoli'r cynnydd mewn ffioedd.
- Byddai cyflwyno hyn yn raddol dros ddwy neu dair blynedd yn gymorth mawr i weithredwyr o ran addasu i'r codiadau newydd mewn prisiau.
- Peidio â chynyddu prisiau eto.

Ein hymateb

Nid yw'r ffioedd ar gyfer llawer o'n gwasanaethau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, ac mewn rhai achosion nid ydynt wedi cael eu hadolygu ers blynyddoedd lawer. O ganlyniad, mae ein gwasanaeth trwyddedu yn cael ei danariannu gan tua £2.5 miliwn y flwyddyn. Mae'r cynnydd mwy diweddar, digynsail mewn chwyddiant – sy'n cyfrannu at yr argyfwng costau byw – wedi cael effaith bellach ar ein gallu i redeg ein gwasanaethau ein hunain.

Rydym wedi llunio rhestr o ffioedd a fyddai'n sicrhau ein bod yn adennill y costau o ddarparu ein gwasanaethau yn llawn [1]. Er ein bod wir yn cydnabod yr effaith y bydd y ffioedd arfaethedig hyn yn eu cael ar rai busnesau ac unigolion, nid yw defnyddio ffynonellau ariannu eraill megis incwm parhau neu'r pwrs cyhoeddus ehangach (Cymorth Grant) yn gynaliadwy, ac nid yw'n gallu ariannu'r gwasanaethau rheoleiddio sy'n ofynnol gennym yn llawn mwyach.

Bydd unrhyw ffioedd rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad yn parhau ar y cyfraddau presennol ar gyfer 2023/24.

Mae ein hadolygiad o ffioedd trwyddedau wedi bod ar y gweill ers peth amser, ac rydym wedi ymgysylltu â'n Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau wrth i'r broses hon fynd rhagddi, gan roi gwybod i'n rhanddeiliaid am ein bwriad i ddiwygio ffioedd. Rydym yn cydnabod yn llwyr bod amseriad y cynnydd mewn taliadau yn anodd. Fodd bynnag,

mae pethau'n effeithio ar ein sefydliad ni hefyd, ac ni fyddem yn gallu parhau i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio gyda'r lefelau incwm presennol sy'n seiliedig ar hen gynllun taliadau, ac felly byddem yn parhau i ddibynnu ar ffynonellau eraill i gynnal ein gwasanaethau trwyddedu, fel y nodwyd uchod.

[1] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru | LLYW.CYMRU

A2 Dylai gael ei ariannu'n rhannol gan y cyhoedd

Dywedasoch chi

- Dylai CNC ariannu ein holl wasanaethau rheoleiddio yn llawn neu'n rhannol.
- Dylid rhoi gostyngiadau neu eithriadau i brosiectau sy'n anelu at wella'r amgylchedd naturiol.
- Dylai fod mwy o hepgoriadau ar gael.
- Dylem barhau â'r taliadau presennol.
- Dylai costau gael eu talu gan ran arall o fusnes CNC.
- Dylai cyllid ddod o feysydd eraill.
- Dylid codi tâl am gyngor cyn ymgeisio am bris penodedig, dylid ei ariannu'n gyhoeddus yn rhannol neu dylid ei ddarparu'n rhad ac am ddim.
- Mae'n deg codi ffi fechan am gyngor cyn ymgeisio.
- Dylid codi tâl am ddatblygiadau mwy.
- Pryderu y byddai dileu cymorth cyn ymgeisio yn effeithio ar fusnesau newydd neu fach.
- Dylid cefnogi ffermwyr moch a dofednod yn strategol a dylai ein gwasanaethau fod yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr terfynol.
- Dylai costau cronfeydd dŵr gael eu talu'n rhannol gan y trethdalwr.
- Teimlai rhai ymgyngoreion rheoli gwastraff y dylai'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio gael eu hariannu'n rhannol gan y trethdalwr neu y dylent fod ar gael yn rhad ac am ddim.
- Roedd peth o'r adborth ynglŷn â thrwyddedu rhywogaethau yn nodi na ddylid cymhwyso unrhyw ffioedd, ac y dylai gwasanaethau gael eu hariannu gan y trethdalwr.
- Gofynnodd cynrychiolwyr yr adran ansawdd dŵr inni sut y byddai ffioedd yn cael eu cymhwyso ar gyfer newidiadau a yrrir drwy'r tasglu ansawdd afonydd gwell sydd angen amrywiad cronnol ar draws llawer o drwyddedau, gan eu bod yn teimlo nad yw'r rhain yn addas i'r diben.
- Cawsom awgrym hefyd fod ffioedd ar gyfer pobl sy'n adeiladu cartrefi yn afresymol.
- Dywedodd ymatebwyr ar gyfer y sector adnoddau dŵr hefyd y dylai gwasanaethau gael eu hariannu'n rhannol gan drethdalwyr, y dylai trwyddedau

fod yn rhad ac am ddim ac y dylai cyllid ar gyfer prosesu trwyddedau ddod o ffynhonnell incwm Ardrethi Busnes Llywodraeth Cymru.

- Dylid cynnwys cyfraniad canrannol neu ardoll yn ffioedd y trwyddedau a defnyddio'r arian ar gyfer gweithgareddau gorfodi.
- Bydd y ffioedd arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru a byddant yn effeithio ar y gwelliannau sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Ni ddylai'r unigolyn dalu am drwyddedau rhywogaethau gan y gallai hyn rwystro rhanddeiliaid preifat yn ddifrifol rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth, rheoli plâu ac ysglyfaethwyr a rheoli bywyd gwyllt am resymau diogelwch y cyhoedd.
- Dywedodd yr aelodau fod angen agwedd fwy cyfannol wrth ystyried lefelau ffioedd, gan fod yna fudd cyhoeddus ehangach o amaethyddiaeth yn deillio o bolisïau iechyd a lles anifeiliaid. Roedd hyn yn cyfiawnhau o leiaf gyfran o'r gost yn cael ei thalu gan y pwrs cyhoeddus fel yr arferai fod yn wir.
- Rhaid hefyd ystyried cymorth i fusnesau newydd neu fusnesau sy'n ehangu ac sy'n wynebu costau uwch o lawer am eu ceisiadau am drwyddedau.

<u>Ein hymateb</u>

Ariennir ein cyfrifoldebau rheoleiddio naill ai gan grantiau gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant) neu drwy godi tâl ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio – lle mae gennym bwerau cyfreithiol i godi tâl arnynt. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r arian a gawn wedi'i nodi yn y ddogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* gan Lywodraeth Cymru.

Mae lefel ein cyllid taliadau rheoleiddiol islaw'r swm y mae ei angen i dalu costau'r gwasanaethau a ddarparwn i'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio. Yn ogystal, nid yw'r swm a godwn wedi newid llawer iawn ers sefydlu CNC ym mis Ebrill 2013. Mewn llawer o achosion nid oedd ein ffioedd etifeddol wedi cael eu hadolygu ers sawl blwyddyn cyn hynny. O ganlyniad, rydym wedi cyrraedd sefyllfa anghynaladwy lle mae'r gost inni o weinyddu ceisiadau am drwyddedau yn sylweddol uwch na'r incwm rydym yn ei dderbyn o'n ffioedd presennol. Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi cael effaith bellach ar y ffordd yr ydym yn rhedeg ein gwasanaethau, sydd eisoes wedi'u tanariannu. Nid ydym yn gallu cynnal y gwasanaethau hyn mwyach heb gynyddu'r ffioedd yn unol â'n costau.

Ni fyddai'n briodol ceisio Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai'r rheini sy'n elwa'n uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarparwn iddynt dalu amdanynt, ac ni allwn groes-gymorthdalu o ffrydiau incwm eraill. Yn yr un modd, ni allwn gymorthdalu taliadau ar gyfer unrhyw sector busnes yn benodol.

Mae ein gwaith gorfodi yn cael ei ariannu gan Gymorth Grant rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Mae CNC wedi'i atal rhag defnyddio incwm trwyddedu i dalu am

weithgareddau gorfodi. Mae arian o ddirwyon a ddyroddir gan y llysoedd yn mynd yn uniongyrchol i Drysorlys EF.

Yn yr un modd ag y byddai busnes newydd neu fusnes bach yn talu am wasanaethau cyfrifydd neu gynghorydd busnes, credwn ei bod yn deg bod y rheiny sydd angen cael cyngor amgylcheddol arbenigol gan CNC yn talu am y gost o'i ddarparu. Mae darparu cyngor yn ystod y cam cyn ymgeisio yn aml yn gofyn am gryn dipyn o amser staff. Mae polisi CNC bob amser wedi darparu ar gyfer rhoi cyngor cyfyngedig cyn ymgeisio am ddim, ac ar ôl hynny mae gwasanaeth y codir tâl amdano ar gael, a elwir yn Wasanaeth Cyngor Dewisol. Mae staff CNC wedi bod yn darparu cyngor cyn ymgeisio am ddim ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio sydd y tu hwnt i'r hyn y bwriadwyd gan y polisi. Wrth symud ymlaen, bydd staff CNC yn cyfeirio ymgeiswyr at ganllawiau perthnasol a bydd CNC yn gwella gallu ymgeiswyr i wasanaethu eu hunain drwy ein gwefan. Gellir darparu cyngor ychwanegol cyn ymgeisio ar sail dewisol a chodir tâl am y cyngor hwn. Gall ymgeisydd ddewis ceisio cyngor amgylcheddol arbenigol eu hunain gan ymgynghorydd neu ecolegydd amgylcheddol, er enghraifft.

Sylwch nad yw CNC yn elwa ar godi tâl am gyngor cyn ymgeisio ac ni all ond ceisio adennill costau.

Mae ein ffioedd arfaethedig yn adlewyrchu'r amser a'r ymdrech mae'n cymryd i'n staff benderfynu ar geisiadau am yr amrywiaeth o drwyddedau rydym yn eu cynnig. Yn gyffredinol, bydd cais am drwydded ar gyfer gweithgareddau mwy cymhleth yn cymryd mwy o amser, a bydd angen staff arbenigol i benderfynu arno, a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y pris uwch.

Ar ôl ystyried yr awgrym y dylid lleihau'r gost o amrywio trwyddedau lluosog a ddelir gan yr un gweithredwr, rydym yn dal i fod o'r farn y dylai cost y gwaith angenrheidiol gael ei thalu'n llawn gan y gweithredwr ac nid CNC.

Mae CNC wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun taliadau arfaethedig, fel sy'n ofynnol gan adran 6.3.7 o *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru,* er mwyn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i adrannau perthnasol o safbwynt unrhyw wrthdaro posibl o ran polisi.

A3 Effeithlonrwydd a symleiddio ein prosesau

<u>Dywedasoch chi</u>

- Mae amseroedd aros yn rhy hir.
- Mae angen amserlen addas ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd 'na wnaed yn briodol', sy'n hwy nag 1-2 wythnos.
- Mae'r broses ymgeisio am drwydded yn aneffeithlon.
- Mae'r system drwyddedu yn cymryd gormod o amser.
- Dylid symleiddio'r broses.
- Dylai CNC gael ei redeg fel busnes.

- Mae CNC yn aneffeithlon ar hyn o bryd ac mae angen iddo fod yn fwy effeithlon gyda'r adnoddau presennol.
- Gellid cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol gyda golwg ar gadw costau yn hylaw.
- Cred y gellid arbed costau drwy lifau gwaith symlach ac ymgysylltu â gweithredwyr.
- Ni ddylid defnyddio ffioedd uwch i ariannu aneffeithlonrwydd sefydliadol.
- Mae CNC yn aneffeithlon wrth brosesu apeliadau yn achos cronfeydd dŵr.
- Nid oes angen dyblygu arolygon i gefnogi prosesau cynllunio a thrwyddedu ar gyfer ceisiadau am safleoedd hylosgi canolig.
- Dylid cyflwyno ffi uwch am ganiatadau newydd er mwyn talu am gostau amrywiadau / costau gweinyddol.
- Nid oes unrhyw wybodaeth am yr adolygiad a gynhaliwyd o'r broses drwyddedu.
- Dylid ariannu cynlluniau angenrheidiol yn unig.
- Dylid lleihau ymyriadau CNC.
- Mae angen i CNC esbonio pa gamau a gymerwyd i wella effeithlonrwydd y broses drwyddedu er mwyn cyflawni arbedion ariannol.
- Byddai ffyrdd llai dwys o weithredu yn cyflawni'r un peth neu fwy, gan ryddhau staff i fod allan yn gwirio a chynghori.
- Dylid cydnabod pa mor bwysig yw hi i ddilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg yn ystod y broses drwyddedu.
- Nid yw'r codiadau yn y ffioedd parhau yn seiliedig ar risg.
- Gallai CNC gadw isafswm ffigur penodol ar gyfer ymdrin ag adrodd am drwyddedau yn flynyddol.
- Cawsom sylw yn ymwneud â chanfyddiad o fiwrocratiaeth ac un arall yn gofyn bod rhagor o rwystrau a gwrthbwysau yn cael eu cyflawni'n gyhoeddus.
- Mae'r strwythur taliadau cais yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r amser a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu ar geisiadau, wedi'i luosi â nifer cyfartalog y ceisiadau a geir bob blwyddyn. Mae hyn yn goramcangyfrif costau ac yn ymgorffori aneffeithlonrwydd mewnol y system.
- Rhaid annog Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn ariannol effeithlon, a dim ond drwy feddu ar faich cost a gweithio o fewn ffioedd sefydlog y cyflawnir hyn. Os oes angen taliadau mewn amgylchiadau eithriadol ar gyfer ceisiadau a thrwyddedau cymhleth, dylid trafod a chytuno ar ffi sefydlog gyda'r ymgeisydd, a gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio â hi.
- Ymddengys nad oes unrhyw ymdrechion i egluro'r hyn a wnaed i symleiddio prosesau a lleihau aneffeithlonrwydd gweinyddol i helpu i fantoli'r diffyg o £3 miliwn.
- Er ein bod yn cytuno â'r nodau a'r egwyddorion a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun codi tâl, mae arnom angen eglurhad pellach ynghylch darparu

canllawiau ynghylch gweithredu'r rhaglen a'r gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir y gellid disgwyl eu cyflawni drwy'r rhaglen.

- Nid oes unrhyw ymgais i ddangos bod ymdrechion wedi'u gwneud i wella'r arferion presennol o fewn CNC i nodi gwastraff ac aneffeithlonrwydd, ac nid oes unrhyw ymgais i egluro bod pob ymdrech wedi'i gwneud i leihau costau.

Ein hymateb

Dyma'r adolygiad eang cyntaf o ffioedd CNC ers inni gael ein sefydlu yn 2013. Mae'r rhan fwyaf o ffioedd CNC wedi aros yr un peth ers hynny, ac mae unrhyw godiadau a wnaed yn ddiweddarach wedi bod yn gyson is na chwyddiant.

Rydym yn gwneud y newidiadau hyn oherwydd nad yw'r ffioedd rydym yn eu codi ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r costau o ddarparu ein gwasanaethau. O ganlyniad, mae ein gwasanaethau wedi cael eu tanariannu ac wedi bod o dan bwysau ers peth amser, gan arwain at amseroedd aros hwy cyn cael penderfyniad am drwydded mewn rhai meysydd.

Gyda'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd, rydym yn symud i sefyllfa sy'n canolbwyntio mwy ar weithredu fel busnes, lle mae'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn talu'r costau o'u darparu a'n bod yn lleihau ein dibyniaeth ar arian cyhoeddus.

Nododd rhai o'r ymatebwyr sylwadau'n ymwneud â chanfyddiad o ddiffyg effeithlonrwydd ym mhrosesau presennol CNC, ac awgrymwyd y dylem fod yn gallu gwneud mwy gyda llai. Fel yr amlinellwyd uchod, mae gwasanaeth trwyddedu CNC wedi bod yn gweithredu ar ddiffyg sylweddol. Er ein bod yn ceisio gwella ein ffyrdd o weithio yn barhaus, rydym wedi bod yn gwneud mwy gyda llai ers sawl blwyddyn, ac mae hynny'n cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae cynlluniau rheoleiddio CNC yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd drwy sicrhau bod busnesau ac unigolion yn gweithredu o fewn y gyfraith pan fydd eu gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd. Fel yr amlygwyd yn Atodiad 1 i'n dogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau deddfwriaethol i CNC i godi tâl am gyflawni cyfrifoldebau rheoleiddio. Mae talwyr ffioedd yn ariannu'r gwasanaeth y maent yn elwa arno. Bydd angen cyllid Cymorth Grant ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hariannu drwy daliadau.

Awgrymodd un o'r ymatebwyr y gellid arbed arian drwy ymgysylltu â gweithredwyr. Yn ein profiad ni, mae ymgysylltu â gweithredwyr yn cynyddu'r amser sydd ei angen ac felly byddai'n costio mwy i gyflawni gwaith.

Wrth ddatblygu ein ffioedd arfaethedig, rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i'n proses o benderfynu ar geisiadau a'i heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn rhan hanfodol o ddatblygu'r ffioedd arfaethedig ac felly nid yw'r wybodaeth am y broses drwyddedu ar gael fel darn o waith ar wahân. Nododd ein gwaith rywfaint o elfennau aneffeithlon sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amser mae'n ei gymryd i benderfynu ar drwyddedau, gan gynnwys ansawdd cais a darparu cyngor cyn ymgeisio.

Pan fyddwn yn derbyn ceisiadau o ansawdd gwael a bod angen i'n staff gynnal trafodaethau gydag ymgeiswyr i gael rhagor o wybodaeth er mwyn symud cais yn ei flaen, mae'n cymryd llawer iawn mwy o amser staff. Wrth symud ymlaen, bydd ceisiadau anghyflawn neu o ansawdd gwael na allwn eu gwneud yn briodol yn cael eu

dychwelyd i'r ymgeisydd. Mewn rhai cyfundrefnau bydd cyfran o'r ffi ymgeisio yn cael ei gadw i dalu am waith a wnaed gan staff CNC hyd at y pwynt hwnnw.

Mae ffioedd diwygiedig yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl o gofnodi amser. Bydd prosesau cyffredinol sy'n berthnasol i bob cais yn seiliedig ar ffi gyfartalog. Fodd bynnag, rydym ni wedi cyflwyno ffioedd asesu ychwanegol ynghyd â ffioedd fesul awr pan mae ceisiadau'n fwy cymhleth, a byddai cynnwys y rhain yn y ffi gyfartalog sylfaenol wedi gwyro pethau'n annheg.

Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella effeithlonrwydd ein gwasanaethau a byddwn yn rhoi rhagor o sylw i'r awgrymiadau a gawsom o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

A4 Ansawdd gwasanaethau

Dywedasoch chi

- Dylid darparu adnoddau ychwanegol a gwasanaethau i gwsmeriaid, yn enwedig mewn perthynas â chyngor cyn ymgeisio, gorfodi a ffioedd parhau.
- Mae angen cyflymu, bod yn fwy cyson o ran penderfynu ar drwyddedau a chyfiawnhau gwariant yn sgil cynyddu ffioedd.
- Dylid darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid, o safbwynt rheoleiddio a chynnal archwiliadau safle.
- Dim ond pan na fydd ymgeiswyr yn ymateb i ohebiaeth 'na wnaed yn briodol' oddi wrth CNC y dylid gwrthod ceisiadau a chadw ffi.
- Nid yw'r broses bresennol yn gadarn – mae camau penderfynu yn cael eu methu ac mae diffyg hysbysu.
- Dylai ffermwyr a busnesau bach gael mwy o gymorth gan CNC, er enghraifft cynghorydd penodedig.
- Dylid bod yn fwy cyson gydag adroddiadau cydymffurfio.
- Arweiniodd adolygiad Asiantaeth yr Amgylchedd at brisiau uwch i ddefnyddwyr gwasanaethau, dim gwelliant yn y gwasanaeth trwyddedu, oedi wrth ddyroddi trwyddedau ac effeithlonrwydd gwael wrth ymdrin â cheisiadau.
- Gall oedi wrth ddyroddi trwyddedau effeithio ar fuddsoddiad a materion economaidd a'r symudiad tuag at garbon sero net.
- Mae angen ffioedd er mwyn diogelu'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i benderfynu ar drwyddedau, gan wneud yn siŵr nad yw hyn yn diraddio dros amser.
- Gallai fod yn annheg yn ariannol ar y cwmnïau hynny sy'n cadw at y rheolau os nad yw CNC yn monitro'n effeithiol.
- Mae angen inni gofnodi amser.
- Dylem wella ein gwefan ar gyfer cael cyngor cyn ymgeisio, a defnyddio iaith glir.

- Dylem ddarparu cyngor cyn ymgeisio sydd o safon a'i ddarparu drwy gydol y broses ymgeisio.
- Bydd cyngor cyn ymgeisio ystyrlon yn arwain at gyflwyno ceisiadau o ansawdd gwell y gellir penderfynu arnynt mewn ffordd fwy effeithlon a chyflym.
- Dylid cynnig yr opsiwn i gael cyngor cyn ymgeisio am ffi fach, ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â phŵer trydan dŵr.
- Mae angen mwy o fonitro mewn sawl cyfundrefn er mwyn sicrhau cydymffurfedd gan gynyddu'r risgiau i'r amgylchedd. Mae hyn yn sicrhau chwarae teg ac yn annog arloesi.
- Mae angen inni fod yn glir ynghylch gwneud gwelliannau i wasanaethau i gwsmeriaid a gwrando ar adborth cwsmeriaid.
- Nid yw'r gwasanaeth presennol yn cyfiawnhau'r cynnydd mewn ffioedd parhau blynyddol.
- A fydd y taliadau ychwanegol hyn yn arwain at gapasiti neu adnoddau ychwanegol?
- A fydd CNC yn wynebu cosbau am ymateb yn hwyr i geisiadau / amrywiadau?
- Codwyd pryderon gan lawer o aelodau un sefydliad bod yr oedi a wynebwyd yn dilyn ceisiadau am drwydded, neu geisiadau am wybodaeth ychwanegol, yn llawer mwy na'r hyn a addawyd.
- Mae'r gwasanaeth trwyddedu yn araf ac yn methu targedau.
- Ni chaiff prosesau eu dilyn yn gadarn bob amser gan staff trwyddedu.
- Nid ydym yn cael ymatebion i'r ceisiadau cyn ymgeisio a wnawn, y gwnaed rhai ohonynt yn 2020.

<u>Ein hymateb</u>

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ein cwsmeriaid mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd gan CNC a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Drwy gymhwyso'r egwyddor adennill costau'n llawn, gallwn ddarparu gwasanaeth rheoleiddio mwy cynaliadwy.

Drwy wella ein gweithgareddau rheoleiddio, gallwn sicrhau chwarae teg, lleihau'r risg o weithgareddau anghyfreithlon a'r niwed canlyniadol i'r amgylchedd. Byddwn yn parhau i gyfeirio pobl at gyngor cyn ymgeisio sylfaenol. Gellir darparu cyngor ac arweiniad y codir tâl amdanynt cyn gwneud cais yn ôl disgresiwn.

Mae ein gwefannau ar *lefelau'r gwasanaethau trwyddedu*[2] yn nodi'r amseroedd penderfynu statudol ar gyfer pob cyfundrefn. Rydym yn cydnabod yr angen i wella ein gwefan a'n prosesau yn barhaus. Yn ogystal, pan fydd arbedion effeithlonrwydd yn arwain at dreulio llai o amser yn penderfynu (a brofir drwy gofnodi amser), byddwn yn

[2] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applications-consultations-and-decisions/?lang=cy

gallu trosglwyddo arbedion i'r cwsmer. Oherwydd ein bod yn sefydliad cyhoeddus, nid ydym yn gwneud elw o'n gwasanaethau. Bydd ein hadolygiad o daliadau blynyddol yn sicrhau bod addasiadau o'r fath yn cael eu gwneud i daliadau yn unol â'n costau.

Dim ond os nad yw cwsmeriaid wedi rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol inni y bydd ffioedd yn cael eu cadw am y gwaith a wnawn. Rydym yn annog ymgeiswyr i wirio eu bod wedi darparu'r holl wybodaeth.

Ni allwn ddarparu cynghorwyr neu ymgynghorwyr penodedig drwy'r cyllid hwn, er y gall busnesau gyflogi ymgynghorwyr annibynnol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae cyngor cyn ymgeisio yn wasanaeth yn ôl disgresiwn. Gweler hefyd adrannau A2 a H.

A5 Dylai perfformwyr gwael dalu mwy

Dywedasoch chi

- Mae'n ymddangos bod cyfleoedd wedi'u colli i drwyddedu a chodi tâl priodol i reoleiddio gweithgareddau ffermio sy'n achosi llygredd.
- Mae'n annheg cynyddu ffioedd rheoli gwastraff ar gyfer safleoedd sy'n perfformio'n dda ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, a bod dim ffordd o leihau eu ffioedd ar y cam ymgeisio.
- Cefnogaeth i'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' – yn enwedig ar gyfer cynlluniau mwy sy'n talu tuag at ddifrod amgylcheddol.
- Dylai perfformwyr gwael dalu mwy.
- Dylid sicrhau bod ffioedd rheoleiddio is yn cael eu codi ar gwmnïau sy'n ymddwyn yn dda.
- Dylid cyflwyno cosbau i droseddwyr a chynyddu'r ffioedd a ailgodir am ddigwyddiadau.
- Nid yw ffioedd ar gyfer monitro ceisiadau i barhau trwyddedau yn ddigonol ar gyfer monitro caniatadau.
- Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer gwella'r amgylchedd yn codi tâl uwch o dan y cynigion, tra bydd rhai trwyddedau sy'n gysylltiedig â difrod amgylcheddol â ffioedd is.

Ein hymateb

Mae ein ffioedd arfaethedig am geisiadau wedi'u datblygu i gydymffurfio â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac maent yn unol â'r egwyddorion a nodir yng Nghod y Rheoleiddwyr. Mae ein hymagwedd reoleiddio yn cyd-fynd â'r meysydd lle mae'r risg fwyaf, fel y'i pennir gan y gweithgaredd a gyflawnir a'r lleoliad arfaethedig. Mae ein ffioedd arfaethedig am geisiadau yn adlewyrchu hyn a'r nod yw adennill y gost o benderfynu ar gais am drwydded yn llawn.

Mae perfformwyr gwael yn cael eu cosbi drwy sgorio yn erbyn cydymffurfio â thrwyddedau. Mae'r system sgorio hon wedyn yn proffilio gweithredwyr yn erbyn risg amgylcheddol a chynnydd mewn taliadau parhau.

Er eu bod yn seiliedig ar risg, mae ceisiadau sy'n debyg i'w gilydd yn mynd trwy'r un broses ac yn destun lefel debyg o graffu, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffi arfaethedig.

Mae ein newidiadau arfaethedig i ffioedd parhau o ganlyniad i chwyddiant. Ein nod yw sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn parhau i gydymffurfio a'n bod yn gweithredu pan fydd amodau trwyddedau'n cael eu torri. Rydym yn cydnabod y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â lefel a blaenoriaeth y gweithgareddau sicrhau cydymffurfedd a gyflawnir gan CNC. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o daliadau parhau yn y dyfodol a fydd yn cynnwys lefel y gwasanaethau, risg a pherfformiad gweithredwyr.

Mewn ymateb i'ch adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffioedd ansawdd dŵr ar gyfer ceisiadau anfasnachol sydd o fudd yn gyfan gwbl a dim ond i'r amgylchedd, fel yr amlinellir yn Adran F isod.

A6 Tryloywder yn ein ffioedd

Dywedasoch chi

- Mae angen i'r cynllun codi tâl newydd fod yn gliriach ac yn fwy tryloyw, mwy atebol, mwy cyfiawnadwy ac yn symlach.
- Mae angen system ffioedd dryloyw lle darperir adroddiadau gweithredu a pherfformiad a chanllawiau clir.
- Rydym yn poeni bod CNC yn codi tâl am waith cydymffurfio heb ei gynllunio o ganlyniad i gwynion blinderus neu drefnedig.
- Mae'n bosibl na fydd gan CNC y gallu i godi ffioedd am nifer o weithgareddau sy'n achosi llygredd, ond mae'n codi'r cwestiwn a yw costau'n cael eu priodoli'n gywir.
- Ni chafodd canlyniadau anfwriadol eu hystyried gan yr asesiad o effaith ynni dŵr a gynhaliwyd gan CNC.
- Mae angen egluro'r system fandio arfaethedig ar gyfer rheoli gwastraff a diwydiannau a reoleiddir, er mwyn galluogi ymatebwyr i gynllunio a chyllidebu'n briodol.
- Pryderu bod y costau yn benagored ac yn ddiderfyn o bosibl. Ddim yn bosibl cyllidebu ar ei gyfer.
- Nid yw'n glir p'un ai'r ymgeisydd neu CNC sydd i gwblhau Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, na ph'un a oes angen taliadau.
- Mae'n hollbwysig bod ffioedd ar gyfer safleoedd cyfleusterau ailgylchu deunyddiau yn cynyddu yn unol â chwyddiant, ond nid yw hynny'n wir yn achos mathau eraill o safleoedd gwastraff.
- Nid yw CNC yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn diwydiant.

- Dylai'r cynnydd mewn prisiau fod yn unol â'r cynnydd yng nghyflogau'r llywodraeth.
- Mae cwestiynau ynglŷn â thuedd a dilysrwydd yr ymgynghoriad.
- Mae diffyg tystiolaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig.
- Nid oes dadansoddiad o'r costau wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad.
- Nid ydym yn cefnogi cynigion CNC i gynnal adolygiad sylfaenol o'r ffioedd parhau blynyddol. Nid ydym yn credu bod ymagwedd CNC tuag at yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl yn bodloni egwyddorion rheoleiddio.
- Nid yw CNC wedi rhoi unrhyw esboniad am y cynnydd sylweddol mewn ffioedd.
- A fydd proses adolygu? A fyddwch yn gallu penderfynu p'un a yw codi tâl wedi cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau?
- Mae angen i gynigion ystyried costau staffio hefyd.

Ein hymateb

Mae CNC wedi defnyddio egwyddorion adennill costau'n llawn yn unol â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* i bennu'r taliadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am drwyddedau. Rydym wedi cyfrifo ffi pob cais drwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar bob math o drwydded, faint o amser y mae'n ei gymryd i'w prosesu a'r costau o wneud hynny. Yna defnyddiwyd dull teg a chymesur o ddyrannu costau gweithgareddau anuniongyrchol ar sail lefel y gweithgaredd uniongyrchol. Rydym yn credu bod ein methodoleg yn gadarn ac yn cydymffurfio â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac egwyddorion rheoleiddio.

Roedd ein pecyn ymgynghori yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin a oedd yn cynnwys trosolwg o sut y pennwyd ein taliadau – o'r broses drwyddedu a ddilynir i'r egwyddor ariannol o adennill costau'n llawn a nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru,* y mae'n ofynnol inni ei dilyn.

Mae'r ffioedd arfaethedig ar gyfer trwyddedau yn seiliedig ar yr amser a gymerir i benderfynu ar gais ac maent yn gymesur.

Bydd y taliadau newydd yn cael eu hadolygu'n amserol a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau fel rhan o'n hadolygiad blynyddol.

O ran rhai ceisiadau am drwyddedau diwydiant a reoleiddir a thrwyddedau gwastraff, codwyd pryderon y gallai ein penderfyniad i godi tâl am amser a deunyddiau arwain at ffi ddiderfyn pe bai cais yn cymryd mwy na 150% o'r amser penderfynu cyfartalog i'w brosesu. Rydym yn deall y pryder a godwyd. Bydd ymgeisydd yn cael gwybod pan fydd ei gais wedi cymryd 100% o'r amser a neilltuwyd ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd nes cyrraedd y trothwy 150% a'r tu hwnt.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall yn fuan ar yr offeryn bandio arfaethedig ar gyfer rheoli gwastraff a diwydiant a reoleiddir.

Nid yw ffioedd am Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u cynnwys yn y ffioedd arfaethedig ar gyfer ceisiadau gan na fydd angen cynnal asesiad ar gyfer pob cais.

Byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr p'un a fydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd arnynt ar ôl iddynt gyflwyno cais. Mae hyn yn golygu ein bod yn osgoi codi ffioedd diangen y gall fod angen eu dychwelyd i ymgeiswyr. Bydd tudalen we yn cael ei chyhoeddi i egluro gofynion o ran Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Efallai y byddwn yn derbyn adroddiadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel rhan o gais am drwydded rhywogaethau os yw hyn yn ymwneud â chais ar raddfa fawr, gan sefydliad cyfleustodau neu gorff cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, gallwn fabwysiadu eu Hasesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwy os yw'n dderbyniol i CNC.

Mae'r codiadau ar sail chwyddiant mewn taliadau parhau wedi'u capio ar 6%, ac maent dim ond yn ymwneud â chyfundrefnau sy'n gweithredu ar ddiffyg ar hyn o bryd. Ni roddwyd cymaint o sylw i ffioedd parhau yn yr adolygiad sylfaenol ag a roddwyd i ffioedd ar gyfer trwyddedau. Mae hwn yn waith y mae CNC yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Nid yw CNC yn bwriadu newid y ffordd yr ydym yn codi tâl am waith cydymffurfio o ganlyniad i'r Adolygiad Strategol o Godi Tâl hwn.

Fel y nodwyd yn ein dogfen ymgynghori, roedd rhagor o fanylion ar gael ar gais, a darparodd CNC gostau manwl i nifer o sefydliadau ar gais.

Dosbarthwyd asesiadau effaith i'r rhai a ofynnodd am ragor o wybodaeth am hyn yn ystod ein cyfnod ymgynghori.

Gweler yr adrannau uchod hefyd mewn perthynas â pham y mae angen i ni godi mwy o dâl ar yr adeg hon.

A7 Cynnwys system ostyngiadau

<u>Dywedasoch chi</u>

- Mae'r cynllun codi tâl anhyblyg a gynigir, lle y'i mabwysiadwyd yn Lloegr, wedi arwain at godi gormod o dâl mewn rhai achosion.
- Dylai CNC roi system gostwng ffioedd ar waith sy'n debyg i'r un yn Lloegr, lle gall yr ymgeisydd adennill taliadau dros ben a dalwyd ganddo ar gyfer y cais hwnnw ar sail yr amser a gymerwyd mewn gwirionedd, ar ôl penderfynu ar gais.

<u>Ein hymateb</u>

Rydym wedi cyfrifo ein taliadau ar sail cyfartaleddau, yn ogystal â chynnwys ffioedd ychwanegol fesul awr wrth i geisiadau fynd yn fwy cymhleth, er mwyn peidio â gwyro'r ffi gyfartalog ac roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor hon. Gan ein bod yn sefydliad cyhoeddus, nid ydym yn gwneud elw o wasanaethau. Bydd ein hadolygiadau blynyddol o godi tâl yn sicrhau bod ffioedd yn newid yn unol â'n costau. Felly, ni fydd ein system ostyngiadau bresennol yn newid.

A8 Risg o fwy o weithgareddau anghyfreithlon neu weithgareddau heb eu rheoleiddio

Dywedasoch chi

- Bydd y ffioedd newydd yn arwain at gynnydd mewn gweithgareddau anghyfreithlon ac achosion o waith yn cael ei wneud heb drwyddedau.
- Risg y bydd rheolwyr tir ar raddfa fach yn gwneud gwaith heb drwydded.
- Efallai y bydd y ffi arfaethedig o £900 ar gyfer trwydded rhywogaethau yn arwain at sefyllfa lle mae datblygwyr bach yn gweithredu y tu allan i'r gyfraith.
- Bydd codi tâl yn arwain at ostyngiad yn nifer y ceisiadau am drwyddedau ac yn annog pobl i wneud gwaith heb drwydded.
- Gallai prisiau uwch atal pobl rhag gwneud ceisiadau ac arwain at fwy o lygredd.
- Gallai ffioedd uwch olygu y bydd pobl yn cofrestru ar gyfer esemptiad y gall fod ganddynt hawl gyfreithiol i'w gael, neu beidio.
- Bydd cynnydd mewn ffioedd dip defaid yn wrthreddfol ac yn datblygu ymhellach y farchnad ddu o ran masnachu dip defaid.
- A fyddwch yn gallu penderfynu p'un a yw codi tâl wedi cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau?
- Mynegwyd ofnau y gallai cyflwyno'r cyfryw gynnydd torcalonnus o safbwynt dip defaid arwain at rai ffermwyr yn gweithredu'n anghyfrifol, y tu allan i'r rheoliadau, gan effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd.

Ein hymateb

Yn ein profiad ni, mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau gwneud y peth iawn ac felly byddant yn parhau i geisio caniatâd fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Rydym yn cydnabod bod risg y bydd cynnydd bach mewn gweithgareddau anghyfreithlon oherwydd y ffioedd uwch ar gyfer ymgeiswyr newydd. Byddwn yn gallu cymharu nifer y ceisiadau am drwyddedau yn 2023/24 â blynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r effaith ariannol y gallai ein cynigion ei chael ar rai busnesau a sectorau, yn enwedig o ystyried y pwysau ehangach yn sgil costau byw.

Fodd bynnag, nid yw'r ffioedd presennol yn adlewyrchu'n llawn faint mae'n ei gostio inni ddarparu'r gwasanaethau rheoleiddio hyn. Mae hyn yn golygu ein bod yn adfer swm sylweddol llai o arian na'r hyn sy'n ofynnol ac yn dibynnu ar ffynonellau incwm eraill, sy'n anghynaladwy, ac nid yw hynny'n briodol bellach.

Bydd ein cynllun codi tâl newydd yn sicrhau ein bod yn codi'r taliadau cywir ar gyfer y gwasanaethau rheoleiddio rydym yn eu darparu, a hynny mewn modd teg a phriodol. Bydd gweithredu ein ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023/24 a sicrhau bod ein hymdrech trwyddedu yn adlewyrchu'r gost yn llawn yn rhyddhau incwm o daliadau y gellir ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau sicrhau cydymffurfedd. Fel arall, byddai'r incwm hwn wedi cael ei ddefnyddio i ariannu'r diffyg yn y cyllid ar gyfer gweithgareddau trwyddedu, a bydd yn ein galluogi i helpu i fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon, ac i wynebu heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd.

A9 Mae'r ffioedd newydd yn rhy ddrud

Dywedasoch chi

- Mae rhai o'r ffioedd yn rhy ddrud.
- Mae rhai o'r codiadau yn rhy fawr ac yn afresymol hyd yn oed o ystyried chwyddiant a'r ffaith na fu unrhyw gynnydd am sawl blwyddyn.
- Dylid codi yn unol â chwyddiant os o gwbl.
- Yn sylweddol ddrytach na Lloegr heb unrhyw reswm clir pam.
- Bydd y ffioedd hyn yn golygu bod ffioedd CNC yn fwy na ffioedd Asiantaeth yr Amgylchedd a gallai olygu bod darpar weithredwyr yn dewis lleoliadau yn Lloegr ar gyfer eu safleoedd gwastraff dros leoliadau yng Nghymru.
- Mae'r costau uwch y tu hwnt i'r hyn y gallu diwydiant ei dalu.
- Bydd y codiadau'n cael effaith andwyol ar gyflogaeth a hyfywedd cymunedau gwledig; mae'r codiadau'n gosod baich gormodol ar randdeiliaid ac yn dod yn rhwystr i fusnesau newydd.
- Yn atal twf economaidd yn y sector preifat.
- Bydd costau yn effeithio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni.
- Dylai ffioedd ar gyfer busnesau bach a chanolig fod yn isel iawn.
- Diystyru ffioedd ar gyfer cwmnïau mawr a chodi ffioedd mwy o faint ar fusnesau llai.
- Mae'n cynyddu'r anfanteision i fusnesau bach yn y sector preifat.
- Ni ddylai busnesau sy'n cael anawsterau a busnesau llai orfod talu mwy.
- Gallai'r ffioedd hyn ddod yn rhwystr i newydd-ddyfodiaid yn y diwydiant.
- Mae'r costau uwch yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o allu diwydiant i'w talu, yn enwedig ym maes amaethyddiaeth.
- Bydd ffioedd cael effaith niweidiol ar goedwigaeth, ffermio a rheoli tir; maent yn debygol o amharu'n sylweddol ar eu gweithrediadau a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd o gwbl.
- Bydd busnesau'n oedi cyn gofyn am gyngor cyn ymgeisio.
- Dylai codiadau i ffioedd parhau fod yn seiliedig ar faint o ymdrech sydd ei angen nid y cynnydd mewn chwyddiant yn unig.
- Mae unrhyw gynnydd yn y ffioedd parhau yn amodol ar rannu costau â chwsmeriaid, a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar filiau cwsmeriaid. Gorfodaeth fympwyol ac annheg a fyddai'n ddefnydd dilyffethair ac awtocratig o'r pwerau a roddwyd i chi.
- Mae gan CNC ormod o arian yn barod.
- Bydd ffioedd cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr fel treth llechwraidd arall.
- Pam ei bod hi'n costio cymaint i drosglwyddo trwydded?
- Bydd ffioedd gormodol am geisiadau trosglwyddo yn cael effaith anghymesur ar rai diwydiannau megis mwyngloddio a chwarela, a'r sector ynni adnewyddadwy.

- Mae'r strwythur codi tâl arfaethedig yn gwthio'r rheoleiddiwr i'r byd masnachol, a ffaith y byd masnachol yw nad yw aneffeithlonrwydd cyllidol yn cael ei dalu gan y 'cwsmer'. Ni ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn rheoleiddiwr a banciwr (ciper a photsiar).
- Ymddengys nad oes unrhyw ddealltwriaeth o allu'r sector amaethyddol i dalu codiadau pris o'r maint hwn.
- Nid yw'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ar gyfer y sector amaethyddol yn gymesur nac yn deg.
- Mae heriau busnes amaethyddol sydd ochr yn ochr ag unrhyw gynnydd arfaethedig i ffioedd CNC yn bygwth hyfywedd cyffredinol busnesau fferm Cymru, y mae llawer ohonynt wedi arallgyfeirio yn unol â pholisi, grant a chymorth blaenorol Llywodraeth Cymru.
- Ar hyn o bryd, mae amaethyddiaeth a'r gadwyn cyflenwi bwyd gyfan yn gorfod ymdopi â chynnydd sylweddol mewn costau, sy'n llawer uwch na mynegeion chwyddiant cyfredol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) neu'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Ar yr un pryd, rydym yn dechrau gweld cwymp mewn prisiau wrth gât y fferm. Bydd y cynigion rhyfeddol hyn yn erydu proffidioldeb a hyder ymhellach.

<u>Ein hymateb</u>

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau system decach a fydd yn golygu bod busnesau'n talu am gostau'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, yn hytrach na defnyddio ffynonellau incwm eraill megis incwm parhau neu'r pwrs cyhoeddus (Cymorth Grant), sy'n anghynaladwy ac nid yw'n briodol bellach.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y bydd ein cynigion codi tâl yn ei chael ar rai sectorau busnes, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach megis cynnydd chwyddiant.

Mae CNC yn wynebu pwysau sylweddol ar ein hadnoddau. Os na fyddwn yn newid y ffordd yr ydym yn codi tâl am ein gwasanaethau, byddwn yn parhau i weld gostyngiad yn ein sylfaen sgiliau technegol, dibyniaeth barhaus ar ffynonellau incwm eraill fel y nodir uchod sy'n anghynaladwy ac nid yw'n briodol bellach, ac anallu i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r swm yr ydym yn ei godi ar y rheini rydym yn eu rheoleiddio am y gwasanaethau rydym yn eu darparu wedi newid yn sylfaenol ers sefydlu CNC ym mis Ebrill 2013. Mewn llawer o achosion nid oedd ein ffioedd etifeddol wedi cael eu hadolygu ers sawl blwyddyn cyn hynny. Nid ydym wedi adennill y gost o ddarparu ein gwasanaethau ers sawl blwyddyn.

Bydd y ffioedd newydd yn cael eu hadolygu'n amserol a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau fel rhan o'n hadolygiad blynyddol.

Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi cael effaith bellach ar y ffordd rydym yn rhedeg ein gwasanaethau, sydd eisoes wedi'u tanariannu. Nid fyddwn bellach yn gallu cynnal y gwasanaethau hyn os nad ydym yn cynyddu'r ffioedd yn unol â'n costau.

Ni fyddai'n gynaliadwy nac yn briodol i ddefnyddio incwm parhau i dalu am ddiffygion o ran trwyddedu, na cheisio Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai ffioedd fod yn ddigon i'w talu, ac ni allwn groes-gymorthdalu o ffrydiau incwm eraill. Yn yr un modd, ni allwn gymorthdalu ffioedd ar gyfer unrhyw sector busnes yn benodol.

Mae Adran 6.3.6 o *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn pennu na ddylid codi symiau gwahanol ar wahanol grwpiau o gwsmeriaid am wasanaeth sy'n costio'r un faint, er enghraifft codi mwy ar gwmnïau nag unigolion. O ganlyniad, ni allwn ystyried gosod ffioedd is ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Rydym yn parhau i fod yn hyderus y bydd ein codiadau arfaethedig i ffioedd parhau yn deg ac yn gymesur hyd nes ein bod yn gallu cynnal adolygiad manwl o'r maes hwn.

Mae CNC yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill i helpu i sicrhau dulliau cyson a chynnal tegwch i fusnesau. Mae gan CNC gylch gorchwyl ehangach ac amcanion deddfwriaethol gwahanol i reoleiddwyr eraill yn y DU. O ganlyniad, mae'n annatod y bydd arferion a pholisïau yn wahanol wrth i CNC addasu i wahanol flaenoriaethau. Mae CNC wedi ymrwymo i gynnal cysondeb yn ein polisïau a'n canllawiau yn enwedig ar draws y DU, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ein strwythur sefydliadol yn arwain at wahanol gostau oherwydd y rhyngweithio rhwng trefniadau cysylltiedig a'n sylfaen gostau.

Bydd CNC yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill i ddeall costau. Fodd bynnag, nid yw cymhariaeth uniongyrchol o'r ffioedd rhwng sefydliadau rheoleiddio yn broses syml, a gall amrywio am sawl rheswm. Er enghraifft, nid yw datblygu polisi yn hawdd i'w wneud ar bob graddfa yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod angen i CNC ddatblygu polisïau ar gyfer llai o gwsmeriaid na rhai o reoleiddwyr eraill y DU. Mae CNC wedi ymrwymo i gynhyrchu costau tryloyw ar gyfer ein ffioedd.

A10 Cefnogaeth i'r cynigion codi tâl

<u>Dywedasoch chi</u>

- Cytundeb y gellir codi tâl am gyngor cyn ymgeisio a roddir yn ôl disgresiwn.
- Cytuno bod cynnydd mewn costau yn briodol ar ôl dros chwe blynedd o beidio â'u newid.
- Mae'r egwyddor o adennill y gost gyfartalog ar gyfer ceisiadau arferol yn ymddangos yn rhesymol.
- Cefnogaeth ar gyfer ffioedd uwch ar gyfer gwasanaethau penodol.
- Dylai costau ceisiadau am drwyddedau fod yn ddigon i dalu am y gost lawn o benderfynu ar geisiadau.
- Mae ffioedd sy'n seiliedig ar ymdrech y rheoleiddiwr yn deg ac yn gymesur.
- Cytuno'n fras y dylid cynyddu'r gost ar gyfer penderfynu ar leoliadau er mwyn adlewyrchu costau gweithredu uwch.

- Er mwyn sicrhau bod CNC yn cael ei ariannu'n llawn i asesu goblygiadau trwydded gosodiadau ar SoDdGAau neu safleoedd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, dylid codi tâl ar geisiadau perthnasol.
- Mae'n galonogol i ni fod y rhaglen SRoC wedi'i harwain gan eich egwyddorion codi tâl, yr ydym yn eu cefnogi'n llwyr.

Ein hymateb

Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn. Rydym wedi ail-werthuso ein cynigion codi tâl ac, o ganlyniad, wedi nodi newidiadau, wedi cydnabod y pryderon a godwyd ac wedi ceisio egluro rhai agweddau sydd wedi cael eu camddehongli.

Cawsom gefnogaeth gan rai o'r ymatebwyr i'r syniad o gyflwyno ffioedd am gyngor cyn ymgeisio ac ar gyfer rhai gwasanaethau penodol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i'r syniad o gyflwyno hepgoriadau lle mae trwyddedu yn sicrhau manteision amgylcheddol i'r cyhoedd.

A11 Cydymffurfedd a gorfodaeth

Dywedasoch chi

- Yn cefnogi'r egwyddor o adennill costau os nad yw'n cymorthdalu gweithgareddau gorfodi.
- A ellir ceisio adennill mwy o gostau drwy senarios gorfodi ac erlyn?
- Dylai'r ffi parhau ar gyfer gosodiadau adlewyrchu nifer yr archwiliadau neu nifer yr ymweliadau safle.
- Rydych yn codi tâl am drwyddedau ansawdd dŵr, ddim yn monitro, ac eisiau codi mwy i gyflawni llai.
- Sut mae hyn yn mynd i gael ei reoleiddio neu ei blismona er mwyn sicrhau nad yw pobl yn torri corneli neu'n peidio â hysbysu newidiadau.
- Dylai unrhyw weithgarwch adennill costau adlewyrchu'r gweithgaredd hwnnw ac ni ddylai gymorthdalu gwaith plismona CNC ar gyfer gweithgareddau amgylcheddol anghyfreithlon.

Ein hymateb

Yn ogystal â'r pwyntiau yn Adran A8 uchod, bydd ein taliadau newydd ond yn helpu i adennill costau'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ac unioni'r fantol gyda'n hadnoddau rheoleiddio. Rhaid i CNC weithio yn unol ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfarwyddo na ddylem wneud elw neu golled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Caniateir i ni adennill ein costau yn unig ac ni allwn groes-gymorthdalu.

Ariennir gwaith gorfodi gan arian Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae CNC wedi'i atal rhag defnyddio incwm trwyddedu i dalu am weithgareddau gorfodi. Telir unrhyw ddirwyon a ddyroddir gan y llysoedd i Drysorlys EF.

A12 Y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad o ffioedd, mae'r ddeddfwriaeth yn gwahardd newid neu y mae'r tu hwnt i reolaeth CNC i newid

Dywedasoch chi

- Mae hyn yn gwneud newidiadau i swyddogaeth CNC, gan gymryd arian oddi wrth fuddsoddwyr preifat.
- P'un a fydd angen i filfeddygon adrodd i CNC fel rhan o drawsgydymffurfio.
- Adolygiad o gamddefnyddio esemptiadau.
- Dylid darparu dewisiadau amgen i berchnogion cronfeydd dŵr sy'n talu CNC am y trwyddedau hyn; dylid caniatáu defnydd hamdden o gronfeydd dŵr; dylai taliadau adlewyrchu gwerth y dŵr sydd wedi'i storio; nid yw'r ddeddfwriaeth yn ystyried posibilrwydd argaeau'n methu.
- Dylai gwaith uwchraddio seilwaith dŵr gael ei ariannu drwy wladoli'r system a chwmnïau dŵr.
- Dylid preifateiddio'r gwaith trwyddedu er mwyn arbed costau neu dylid preifateiddio CNC.
- Dylid preifateiddio'r rhan hon o CNC. Dylid gwneud arbedion ar bensiynau ac ati.
- Dylid cynnwys cyfraniad canrannol neu ardoll tuag at weithgareddau gorfodi.
- Nid oes angen trwyddedau ffermio dwys (moch a dofednod).
- Mae angen cymorth strategol ar ffermio dwys.
- Gwerthwch eich tir i dalu amdano.
- Diffyg gwybodaeth am drwyddedau moch daear mewn perthynas â choedwigaeth.
- Ni ddylai fod unrhyw opsiwn i ollwng dŵr budr yn gyfreithlon o dan unrhyw amgylchiadau.
- Dylid cynyddu'r tâl am drwydded arolwg rhywogaethau er elw.
- Dylai'r tâl am drwyddedau datblygu fod yn uwch.
- Dylai cyrff cyhoeddus/sefydliadau preifat sy'n codi tâl am eu gwasanaethau dalu am drwyddedau datblygu a drwyddedir.
- Dylid cynnig gwasanaeth carlam y codir tâl amdano ar gyfradd uwch (prosesu o fewn 1-2 wythnos).
- Nodwyd gan aelodau un sefydliad werth cynlluniau gwaredu plaladdwyr a weithredir gan gwmnïau dŵr i'r sector amaethyddol ac i'r amgylchedd. Roeddent yn meddwl tybed pam na allai CNC ystyried hyn i waredu gwastraff dip defaid.

- A allwch chi rannu cynllun gwella darpariaeth gwasanaeth y bydd y rhaglen SRoC yn ei gynorthwyo drwy'r ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig?
- A ydyw'r SRoC yn darparu ar gyfer meithrin/cryfhau gallu i leihau neu, gobeithio, ddileu cyfyngiadau polisi?
- Pa waith a wnaed gan CNC a rheoleiddwyr eraill a'u gwasanaethau trwyddedu priodol i alluogi CNC i nodi cyfleoedd effeithlonrwydd o ran asesiadau risg a phenderfyniadau ar drwyddedau?
- Rydym yn annog CNC i ailystyried y cynnig hwn ac, os mai'r nod yn y pen draw yw annog ffermydd i symud oddi wrth wasgaru ar dir, yna rhaid ystyried rhyw fath o gynllun cymhelliant.

<u>Ein hymateb</u>

Nid oeddem yn bwriadu gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill – nid yw hynny o fewn cwmpas rhaglen adennill costau.

Nid oes gan CNC gyfrifoldeb dros seilwaith dŵr.

Nid yw CNC yn gallu preifateiddio rhannau o'n busnes gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod y bydd lleiafrif o bobl yn penderfynu cuddio gweithgareddau a drwyddedir y tu ôl i gofrestriadau eithrio sy'n ymddangos yn gyfreithlon. Ar hyn o bryd mae CNC yn gweithio ar adolygiad o eithriadau yng Nghymru er mwyn cryfhau ymhellach ein gallu i reoleiddio a gorfodi yn fwy effeithiol. Mae'r gwaith gorfodi rydym yn ei wneud yn cael ei ariannu, a bydd yn parhau i gael ei ariannu, drwy Gymorth Grant, ac nid drwy ffioedd parhau neu ffioedd ymgeisio.

Ein rôl ni yw sicrhau bod perchnogion cronfeydd dŵr yn gweithredu o dan y gyfraith ac yn cydymffurfio â hi; yn bennaf, eu bod yn penodi'r peirianwyr cywir ac yn gweithredu'r argymhellion a ddarperir ganddynt, at ddibenion sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Mae yna nifer o gyfundrefnau nad ydym yn bwriadu gwneud newidiadau iddynt ar hyn o bryd, gan gynnwys y cyfundrefnau Morol, Coedwigaeth a Rheoli Defnydd Tir. Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau blynyddol o gostau ein gwasanaethau rheoleiddio ac ystyried pob cyfundrefn.

Mae'n werth nodi bod CNC yn rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar ran pobl Cymru ac nad yw'n berchen ar asedau helaeth mawr y gellir eu gwerthu i leihau lefelau ffioedd arfaethedig.

Dyroddir trwyddedau moch daear mewn perthynas â choedwigaeth gan Lywodraeth Cymru, felly nid ydym yn adolygu'r rhain.

Mae CNC yn gyfrifol am reoleiddio yn erbyn deddfwriaeth a ddeddfir yng Nghymru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* mae'n ofynnol inni adennill yn llawn y costau i CNC o brosesu a phenderfynu ar geisiadau am drwyddedau. Nod ein cynllun codi tâl

arfaethedig yw adennill y costau i CNC o benderfynu ar geisiadau am drwyddedau. Rydym yn fodlon bod ein cynllun codi tâl arfaethedig yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw. Ni fyddem yn ceisio dosrannu'r costau hynny'n fympwyol na chodi mwy ar ymgeiswyr mewn perthynas ag unrhyw elw y gallent ei wneud.

Nid yw CNC yn gyfrifol am gynllunio datblygu na thrwyddedau ar gyfer datblygu a ganiateir. Mae'r agweddau hyn yn dod o dan gyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol.

Nid ydym yn gyfrifol am gynlluniau gwaredu cemegion, ac nid oes gennym gyllid ar eu cyfer.

Gan mai rhaglen adennill costau yw hon, rydym yn ceisio incwm cytbwys a chynaliadwy a fydd yn arwain at wella gwasanaethau ag adnoddau gwell yn y tymor hwy. O ganlyniad i'r rhaglen, byddwn yn gweithredu rhai newidiadau polisi sy'n ymwneud â'r cynllun codi tâl.

Fel yr amlinellwyd uchod yn Adran A3 ac A4, nid oes gennym y gallu mwyach i gyflawni'r egwyddor o 'wneud mwy am lai'.

A13 Sylwadau cyffredinol eraill a dderbyniwyd

Dywedasoch chi

- Awgrymwyd bod defnyddio'r hwb ymgynghori yn cyfyngu ar eu gallu i ymgynghori'n llawn â'u haelodau.
- Nid yw CNC wedi darparu unrhyw dystiolaeth i ategu'r codiadau i ffioedd nac unrhyw esboniad o sut y cafodd y costau hyn eu pennu neu eu cyfiawnhau.
- Ni chafodd digon o ddata ei ddarparu.
- Amseru'r ymgynghoriad dros gyfnod gwyliau'r Nadolig.
- Amheuon y bydd ymatebion yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir.
- A yw CNC hefyd yn bwriadu codi tâl pan fydd dogfennau'n cael eu diwygio ar ôl dyroddi trwydded?
- Dylid ystyried effaith cynnydd o 6% ar ffermydd sydd â thrwyddedau presennol ar gyfer ansawdd dŵr, adnoddau dŵr, cydymffurfedd cronfeydd dŵr a gweithgareddau perygl llifogydd.

Ein hymateb

Fe wnaethom ddefnyddio Citizen Space fel canolbwynt ar gyfer casglu ymatebion i'n hymgynghoriad. Mae hwn yn ddull derbyniol ac a ddefnyddir yn aml o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Citizen Space yn ffordd effeithiol o ddarganfod beth yw barn unigolion am gynnig a chasglu gwybodaeth am sut y gallai'r cynnig hwnnw effeithio arnynt. Rydym o'r farn bod defnyddio'r fformat hwn wedi bod yn hygyrch i bawb, yn dryloyw, yn deg ac yn atebol.

Cysylltodd nifer bach o bobl neu grwpiau â ni yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn dymuno darparu ymateb papur i'r ymgynghoriad. Gwnaethom ddarparu copïau papur

o'r cwestiynau ar gais a derbyn yr holl ymatebion a gafwyd ni waeth beth oedd eu fformat.

Credwn y byddai wedi bod yn anodd osgoi cyfnod o dri mis nad oedd yn cynnwys rhyw fath o wyliau cyhoeddus, neu adegau pan mae rhai sectorau busnes yn arbennig o brysur.

Rydym hefyd yn dal i fod o'r farn ein bod wedi darparu digon o wybodaeth i alluogi ymgyngoreion i wneud penderfyniad gwybodus am ein cynigion, ac eithrio adborth ynghylch yr offeryn bandio ar gyfer trwyddedau gosodiadau. Gwnaethom wrando ar hyn a byddwn yn awr yn ymgynghori ar wahân ar hyn. Caiff newidiadau pellach i weithrediad y cynllun codi tâl newydd, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, eu hamlinellu yn ddiweddarach.

Ar gyfer mân newidiadau a diweddariadau i ddogfennau a ddarperir inni gan ddeiliaid trwyddedau, nad ydynt yn ysgogi cais amrywio, ni fyddwn yn codi tâl am y gwasanaeth.

B Y prif themâu yn yr ymatebion – Gosodiadau

B1 Offeryn bandio taliadau ar gyfer gosodiad newydd

Dywedasoch chi

- Nid yw safleoedd presennol wedi'u bandio yn yr un ffordd felly nid yw'n dryloyw ac ni allwn gyllidebu ar ei gyfer.
- Dylid codi ffioedd yn unol â maint y gosodiad.
- Ddim yn siŵr p'un a fydd hyn yn cynyddu neu'n lleihau ein costau, felly ni allwn wneud sylw.
- Mae'n ymddangos bod CNC yn copïo model trwyddedau amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, y gwyddys bod ganddo broblemau.
- Cais i weld yr offeryn bandio newydd er mwyn rhoi mwy o adborth cyn ei lansio.
- Awgrym y dylid ymgynghori â'r sector adnoddau a gwastraff ar fanylion y categorïau bandio gan ei bod yn debygol iawn y bydd effaith sylweddol ar y ffioedd ar gyfer safleoedd gwastraff.
- Dylai'r ffi fod yn seiliedig ar yr adnoddau sydd eu hangen i asesu a phenderfynu ar bob cais amrywio, yn annibynnol ar weithrediadau presennol.

Ein hymateb

Bwriad yr offeryn bandio yw sicrhau bod y tâl yn cyfateb yn agosach i'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau – ac felly'r gost i ni am y gwasanaeth hwn – yn wahanol i'r offeryn OPRA lle roedd ymgeiswyr yn talu swm yn seiliedig ar 'ffactor risg' amgylcheddol ar gyfer y safle cyfan. Mae cymhlethdod y gwahanol fathau o osodiadau yn amrywio'n fawr iawn, ond mae'r gwaith asesu y mae angen ei wneud er mwyn penderfynu ar amrywiad yn benodol i'r cais hwnnw. Mae'n gallu amrywio rhwng ceisiadau a wnaed gan yr un gweithredwr safle, ac rydym eisiau i'r tâl adlewyrchu cost

y gwasanaeth a ddarperir. Nid un dull sy'n addas i bawb fydd hwn, ond un hyblyg, i gyd-fynd â'r cais unigol.

Rydym wedi gwrando ar eich adborth i'n hymgynghoriad ar y mater hwn a byddwn nawr yn cynnal ymgynghoriad ar wahân eleni ar yr offeryn bandio newydd. Yn y cyfamser, bydd y taliadau i weithredwyr yn aros yr un fath nes i ni dderbyn eich adborth ar yr offeryn bandio a'n bod mewn sefyllfa i ystyried ymateb mwy gwybodus.

B2 Ffioedd ar gyfer rheoleiddio diwydiant

Dywedasoch chi

- Mae ffioedd ymgeisio yn cynyddu ac nid oes modd adennill gordaliadau. Dylid mynd i'r afael â hyn.
- Mae seilio taliadau ar nifer y gweithgareddau rhestredig yn hytrach na'r cymhlethdod yn mynd yn groes i'r dull o godi tâl uwch am fwy o waith.
- Yn bryderus ynghylch cynigion i godi tâl am amser a deunyddiau ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n cymryd mwy na 150% o'r amser a gwmpesir gan y tâl.
- Bydd taliadau uwch yn atal BBaChau rhag ymgymryd â mesurau lleihau methan pwysig.
- Angen rhagor o wybodaeth am y model costau.
- Ddim yn siŵr p'un a fydd hyn yn cynyddu neu'n lleihau costau'r busnes, felly ni allaf wneud sylw.
- Mae system OPRA yn fwy addas ar gyfer trwyddedu amgylcheddol ar y safle.
- Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau lluosog (fel sydd yn yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl ar gyfer gweithrediadau gwastraff).
- Pam mae'r costau'n fwy nag y maent yn Lloegr?
- Mae CNC yn nodi bod y broses o ddyroddi'r trwyddedau rheolau safonol hyn wedi'i chyfyngu i wiriadau gweinyddol felly pam mae CNC yn cynnig cyflwyno newidiadau a fyddai'n golygu bod taliadau am geisiadau newydd yn mwy na dyblu, o £1,995 i £4,510.
- Mae angen cadw costau i lawr ar gyfer ffermwyr, ac yn enwedig ffermydd moch a dofednod.
- Pam ei bod hi'n costio cymaint i drosglwyddo trwydded?
- Pa ostyngiad fydd ar waith dros amser er mwyn asesu ceisiadau amrywio a gychwynnir gan weithredwr?
- Mae'r terfyn o 40,000 o adar cyn cael trwydded atal a rheoli llygredd yn rhy uchel.
- Gallai cynigion CNC effeithio'n negyddol ar gwmnïau gwastraff.
- Byddai taliadau yn diystyru gwresogi cost effeithiol o fathau penodol o wastraff niwclear wedi'i selio.

- Mae rhai safleoedd yn debygol o brofi cynnydd sylweddol mewn ffioedd (dros 10 gwaith mewn rhai achosion) wrth ystyried y bandio risg tebygol a ffioedd asesu ychwanegol.
- Bu aelodau un sefydliad yn cwestiynu graddfa'r cynnydd arfaethedig mewn taliadau ar adeg pan fo'r sector dofednod wedi wynebu, ac yn parhau i wynebu, llawer o heriau.
- Credwn y byddai diddymu cyfradd uwch ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol uwchlaw'r trothwy o 80,000 o adar yn gwahaniaethu yn erbyn cynhyrchwyr bach a dwys o ddofednod.
- Ni allai'r aelodau ddeall sut y gellid cyflwyno cynnydd o'r maint hwn ar unwaith i geisiadau newydd am fagu moch a dofednod yn ddwys ac y byddai llawer o ffermwyr yn wynebu taliadau asesu cynefinoedd ychwanegol, gan ychwanegu £1,670 pellach.
- Sut y gellid cyfiawnhau tâl arfaethedig newydd o £595 ar gyfer amrywiad gweinyddol, pan nodwyd mewn man arall yn y ddogfen ymgynghori mai £125 yr awr oedd y tâl am amser a deunyddiau? Holwyd p'un a ydyw'n cymryd pedair awr i amrywio manylion gweinyddu trwydded.
- Rydym yn cydnabod nad oes newid sylweddol ar gyfer ceisiadau moch a dofednod dwys newydd. Fodd bynnag, nid yw cost unrhyw amrywiad, ildiad a throsglwyddiad yn gymesur ac nid yw'r cynnydd yn berthnasol i effaith amgylcheddol na chost rheoli.

<u>Ein hymateb</u>

Rydym wedi cymhwyso egwyddorion adennill costau'n llawn wrth osod lefelau'r ffioedd. Rydym wedi cyfrifo ein ffioedd ar sail cyfartaleddau, yn ogystal â chynnwys ffioedd ychwanegol ar gyfradd fesul awr wrth i geisiadau fynd yn fwy cymhleth, er mwyn peidio â gwyro'r ffi gyfartalog ac roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor hon. Gan ein bod yn sefydliad cyhoeddus, nid ydym yn gallu gwneud elw o wasanaethau. Bydd ein hadolygiadau blynyddol o godi tâl yn sicrhau bod taliadau'n newid yn unol â'n costau.

Bydd taliadau ar gyfer ceisiadau amrywio yn seiliedig ar nifer y gweithgareddau rhestredig yr effeithir arnynt gan y newid hwnnw, nid cyfanswm nifer y gweithgareddau ar y safle.

Byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd pan fydd y gwaith o asesu ei gais wedi cymryd 100% o'r amser a neilltuwyd, fel ei fod yn ymwybodol y gall ffioedd ychwanegol fod yn berthnasol ar ôl treulio 150% o'r amser.

Bydd yr angen am eglurder yn cael sylw gan yr ymgynghoriad ar yr offeryn bandio fel y nodwyd yn rhan B1 uchod.

Mae ffioedd am drwyddedau rheolau safonol yn amrywio rhwng cyfundrefnau, oherwydd y gwahanol gamau a gymerir wrth brosesu cais. Mae'r gwiriadau'n cynnwys

dilysu'r asesiad risg a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, felly maent yn golygu mwy o waith na'r hyn sy'n ymhlyg yn y disgrifiad. Gan fod y drwydded ar gyfer gosodiadau yn ymwneud â gweithgaredd mwy, a allai fod â risg uwch, mae mwy o wiriadau i'w gwneud.

Mae'r trwyddedau rheolau safonol ar gyfer gweithgareddau lle gall yr ymgeisydd ddangos ei fod yn gallu gweithredu o fewn terfynau amodau "safonol" y drwydded. Os na all fodloni'r amodau hyn, rhaid iddo wneud cais am drwydded bwrpasol sy'n llawer mwy costus.

Mae amrywiad gweinyddol ar gyfer trwydded gosodiadau yn golygu bod angen cymryd sawl cam i gwblhau'r gwaith ac unrhyw waith arall cysylltiedig.

B3 Budd amgylcheddol neu fudd i'r cyhoedd

Dywedasoch chi

- Anghytuno'n gryf mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer trwyddedau rheolau safonol ar gyfer safle treulio anaerobig ar y fferm sy'n defnyddio gwastraff fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio bionwy canlyniadol. Mae safleoedd treulio anaerobig yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil, yn ogystal â'r gweddillion sy'n wrtaith naturiol.
- Bydd y ffioedd hyn yn atal mabwysiadu technoleg newydd ac yn effeithio ar gynlluniau i wella effeithiau amgylcheddol
- Mae gan dreuliad anaerobig ran bwysig i'w chwarae yn yr economi gylchol. Wrth i'r diwydiant ffermio ddod yn fwy dibynnol ar weddillion treuliad anaerobig fel gwrtaith oherwydd cynnydd mewn costau gwrtaith anorganig oherwydd digwyddiadau byd-eang, bydd y cynnydd hwn yn atal datblygiad treulwyr anaerobig ar draws Cymru.

Ein hymateb

Rydym yn parhau i fod o'r farn na ddylai'r gost i ni o ddarparu gwasanaethau trwyddedu gael ei gymorthdalu gan ffynonellau incwm eraill megis incwm parhau neu'r pwrs cyhoeddus (Cymorth Grant) ac y dylai'r rheini y mae angen y gwasanaethau hyn arnynt ysgwyddo'r gost lawn.

C Y prif themâu yn yr ymatebion – Gwastraff ar y safle

C1 Offeryn Bandio ffioedd ar gyfer gosodiad newydd

Dywedasoch chi

- Nid yw safleoedd presennol wedi'u bandio yn yr un ffordd felly nid yw'n dryloyw ac ni allwn gyllidebu ar ei gyfer.
- Mae cyfleusterau gwastraff peryglus a biowastraff yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur, ar sail y ffactorau a restrir a allai gynyddu risg y safle, gan fod angen mewnbwn rheoleiddiol ychwanegol arnynt.
- Nid oes unrhyw fanylion am y categorïau bandio ar gael. Awgrymu y dylid ymgynghori â'r sector adnoddau a gwastraff ar fanylion y categorïau bandio gan ei bod yn debygol iawn y bydd effaith sylweddol ar y ffioedd ar gyfer safleoedd gwastraff.

Ein hymateb

Mae rhai tasgau wedi'u cynnwys yn y tâl sylfaenol ar gyfer gosodiadau ond maent yn ffioedd ychwanegol ar gyfer safleoedd gwastraff. Gyda'r fethodoleg modelu tâl a ddefnyddir, mae tasgau a gyflawnir ar gyfer mwy na 70% o geisiadau wedi'u cynnwys yn y ffi sylfaenol. Wedi'u cynnwys hefyd y mae tasgau nad ydynt yn cymryd llawer o amser i'w cyflawni, er y gallant fod yn dasgau a wneir yn anaml. Asesiadau ychwanegol yw'r tasgau hynny a wneir yn anaml, sy'n berthnasol i rai ceisiadau yn unig ac yn cymryd mwy na saith awr i'w cwblhau.

Ar gyfer gwastraff ar y safle, mae'r dull a ddefnyddir ychydig yn wahanol gyda thasgau amledd isel yn cael eu tynnu allan o'r tâl sylfaenol hyd yn oed pan nad ydynt yn cymryd llawer o amser i'w gwneud.

C2 Taliadau

Dywedasoch chi

- Anghysondebau rhwng costau asesu ychwanegol a'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn ffioedd sylfaenol rhwng gosodiadau gwastraff a gweithrediadau gwastraff – asesiad o effaith sŵn, arogl a phlâu, a chynlluniau cysylltiedig, ac asesiadau gollwng annatod.
- Mae'r system newydd yn cyflwyno costau ychwanegol ar gyfer pethau fel cynlluniau tân a llwch a fydd yn orfodol i ailgylchwyr pren, felly pam nad ydynt yn rhan o'r ffi safonol?
- Mae ffioedd ymgeisio yn cynyddu ac nid oes modd adennill gordaliadau.
- Ddim yn cytuno â'r asesiad o'r effaith a gynhaliwyd gan CNC sy'n nodi na fydd y ffioedd hyn yn cael eu trosglwyddo i fusnesau fferm gan gynhyrchwyr gwastraff a gweithredwyr gwastraff.
- Pam mae'r costau yn fwy nag y maent yn Lloegr?
- Pam fod ffi ar gyfer 'Asesu/dogfennu safleoedd gwarchodedig eraill' ac 'Asesiad SoDdGA' – beth yw hyn, nid yw'r ffi hon yn rhan o gyfundrefnau eraill?

- Pam fod ffi am ‘Asesiad cyfrinachedd masnachol’ – nid yw hyn yn rhan o gyfundrefnau eraill?
- Pryder y gallai’r ffioedd atal y defnydd o arferion buddiol sy’n cyd-fynd â dull economi gylchol sy’n un o’r blaenoriaethau ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.
- Siomedig gyda chanlyniadau’r Adolygiad Strategol o Godi Tâl a fydd yn atal ffermwyr rhag ymgymryd â llawer o weithgareddau buddiol ar ffermydd Cymru.
- Pam fod ffi am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – onid yw hyn yn rhan o gynigion yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl ar gyfer y gyfundrefn Gosodiadau?
- Sut y gellir cyfiawnhau codi tâl am Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd yn ogystal â chost trwydded?
- Ddim yn cefnogi ffioedd uwch am leoli peiriannau symudol.
- Rydym wedi cael nifer o sylwadau ynghylch cynnydd mawr yn y pris o ran lleoli peiriannau symudol, tryloywder taliadau arfaethedig CNC ac effeithlonrwydd ein gwasanaeth trwyddedu.
- Nid oes unrhyw wybodaeth am yr adolygiad sydd wedi’i gynnal ar y broses drwyddedu.
- Tasg weinyddol i raddau helaeth yw’r broses cymeradwyo lleoli, sy’n chwyddedig, yn aneffeithlon ac yn dyblygu gwaith yn ddiangen.
- Ddim yn cefnogi ffioedd uwch am leoli peiriannau symudol.
- Rydym ni wedi derbyn nifer o sylwadau o ran codiad sylweddol mewn prisiau mewn perthynas â lleoli peiriannau symudol; tryloywder ffioedd CNC ac effeithlonrwydd ein gwasanaeth trwyddedu.
- Nid oes unrhyw wybodaeth am yr adolygiad sydd wedi cael ei wneud ar y broses drwyddedu.
- Mae’r broses o gymeradwyo lleoli peiriannau yn dasg weinyddol i bob pwrpas, sy’n aneffeithlon ac yn dyblygu gwaith yn ddiangen.
- Ddim yn cefnogi ffioedd uwch am leoli peiriannau symudol.
- O ystyried maint presennol y llygredd sy’n deillio o wasgaru ar dir yng Nghymru, y diffyg rheolaethau presennol ar y gweithgaredd hwn a’r effaith negyddol y mae’n ei chael ar ansawdd dŵr, ni theimlwn fod y ffioedd hyn yn adlewyrchu’r adnoddau a’r costau y dylai CNC fod yn eu neilltuo i’r gweithgaredd hwn.

<u>Ein hymateb</u>

Rydym wedi cymhwyso egwyddorion adennill costau’n llawn wrth osod lefelau ein ffioedd. Rydym wedi cyfrifo ein taliadau ar sail cyfartaleddau, yn ogystal â chynnwys ffioedd ychwanegol fesul awr wrth i geisiadau fynd yn fwy cymhleth, er mwyn peidio â gwyro’r ffi gyfartalog, ac roedd rhai o’r ymatebwyr yn cytuno â’r egwyddor hon. Gan ein bod yn sefydliad cyhoeddus, nid ydym yn gallu gwneud elw o wasanaethau. Bydd

ein hadolygiadau blynyddol o godi tâl yn sicrhau bod ffioedd yn newid yn unol â'n costau.

Codir tâl sylfaenol ar bob ymgeisydd sy'n cynnwys costau'r gwaith y mae ein staff yn ei wneud ar bob cais a dderbynnir. Gan ddibynnu ar y lleoliad a'r gweithgareddau y gwneir cais amdanynt, efallai y bydd angen cynlluniau ac asesiadau ychwanegol. Rydym yn bwriadu codi tâl ar wahân am y rhain. Mae hyn yn sicrhau bod ymgeisydd ond yn talu am y cynlluniau a'r asesiadau ychwanegol sydd eu hangen arnynt.

Nid yw'r cynlluniau a'r asesiadau ychwanegol sydd eu hangen yr un peth ar gyfer pob cyfundrefn. Efallai y bydd asesiad ychwanegol sydd ei angen ar rai ceisiadau ar gyfer gwastraff ar y safle yn asesiad sydd ei angen ym mhob cais mewn cyfundrefn wahanol, ac felly mae wedi'i gynnwys yn y ffi sylfaenol.

Byddwn yn egluro pa asesiadau a chynlluniau ychwanegol fydd yn cael eu cymhwyso wrth bennu trwyddedau ar gyfer gwastraff safle neu reoleiddio diwydiant. Ceir rhywfaint o wahaniaethau yn y ffioedd rhwng y ddwy gyfundrefn ar gyfer prosesau sy'n swnio'n debyg oherwydd lefel y mewnbwn technegol angenrheidiol. Pan fo prosesau'n rhannu'r un enw, bydd y ffioedd yr un fath.

Yn achos lleoliadau, mae'r gwasanaeth a ddarperir yn caniatáu i fusnes weithredu gwasanaeth masnachol yn gyfreithlon. Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn pennu y dylai CNC, fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, adennill ei gostau am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae CNC wedi seilio'r ffioedd arfaethedig ar yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd y camau cyfreithiol wrth benderfynu ar gais lleoli a'r costau cymorth cysylltiedig ar gyfer y gweithgaredd hwn. Bydd cais cyflawn o safon yn helpu o ran penderfynu ar geisiadau ar gyfer pob math o drwyddedau yn brydlon.

Adolygodd CNC y broses drwyddedu fel rhan o raglen yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl. Mae'r ffioedd arfaethedig yn adlewyrchu'r gwaith a wneir wrth gyflawni ein gweithgareddau trwyddedu. Mae'r gwelliannau i'r broses a'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd gennym wedi lliniaru'r cynnydd mewn costau. Rydym wedi nodi newidiadau y mae angen eu gwneud i'n canllawiau a'n gwefan er lles ein cwsmeriaid ac mae gwelliannau yn yr arfaeth.

Bydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd pellach a nodwn yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau o godi tâl yn y dyfodol. Mae'r adolygiadau wedi'u hintegreiddio yng ngwaith datblygu'r cynllun codi tâl arfaethedig newydd ac felly nid yw'n ddogfen ar wahân. Mae'r dogfennau ymgynghori yn cynrychioli canlyniad yr adolygiad o'n ffioedd.

Mae'r asesiad y mae CNC yn ymgymryd ag ef yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i gael ei warchod a bod y gwastraff sy'n cael ei wasgaru i'r tir o fudd i amaethyddiaeth. Mae unrhyw weithgarwch economaidd sy'n niweidio'r amgylchedd, yr ydym i gyd yn dibynnu arno, yn bygwth y peth yr ydym yn ceisio'i ddiogelu. Mae cydbwysedd i'w daro rhwng annog yr economi gylchol a busnes gwyrdd, a sicrhau bod gan CNC y gallu i gyflawni ei ddyletswyddau. Bydd CNC yn parhau i adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu'r gost o gyflawni ein dyletswyddau trwyddedu ac asesu.

D Y prif themâu yn yr ymatebion – Cronfeydd dŵr

D1 Taliadau cofrestru

Dywedasoch chi

- Pe bai talwr ffi yn gofyn am adolygiad o strwythur presennol ym mlwyddyn 4 neu 5 a fyddai'r ffi lawn yn berthnasol, neu a fyddai gostyngiad cymesurol yn cael ei gymhwyso?
- Mae costau cronfeydd dŵr yn is o gymharu â gweithgareddau eraill.
- Nid yw'r ffi newydd ar gyfer adolygu dynodiad risg a'r berthynas rhwng hwnnw a'r tâl monitro cydymffurfedd blynyddol wedi'u hesbonio'n glir.
- Mae'r sector dŵr yn gwneud elw sylweddol. Gyda chynnydd yn y galw am ddŵr wedi'i storio dylid cynyddu'r taliadau hyn i adlewyrchu gwerth yr adnodd a grëwyd.
- Mae cynnydd o 50% yng nghostau cronfeydd dŵr yn sylweddol.
- Bydd costau yn effeithio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni.
- Mae'r cynnydd mewn costau yn afresymol hyd yn oed o ystyried chwyddiant a'r ffaith na fu cynnydd ers chwe blynedd.
- Mae diffyg tryloywder o ran y ffioedd ar gyfer cronfeydd dŵr. Sut mae'r rhain wedi cael eu pennu?
- Gan ei fod yn berthnasol i gronfeydd dŵr â chapasiti o 10,000 metr ciwbig neu fwy, a allwch chi gadarnhau y byddai'r rhan fwyaf o byllau dyfrhau ar ffermydd Cymru y tu allan i'r rheoliadau a'r ffioedd hyn?
- Er mai dim ond ychydig o ffermwyr yr effeithir arnynt ar gyfer cronfeydd dŵr dros 10,000 metr ciwbig, roedd un sefydliad yn meddwl tybed a fyddai cynnydd o'r maint hwn yn atal ffermwyr rhag adeiladu adeileddau cronfeydd dŵr ar y fferm, er mwyn gwella gwytnwch ffermydd.
- Ailadroddwn ein dadl ynghylch y cynnydd mewn costau i fusnesau fferm ar adeg mor anodd. Fodd bynnag, nid yw'r ffioedd mor sylweddol â'r cynigion eraill ac maent yn cydnabod nad oes angen i gronfeydd dŵr o dan 10,000 metr ciwbig gofrestru.

Ein hymateb

Mae'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn gymwys o dan *Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975* bresennol ar gyfer materion a osodwyd yn y gyfraith ac a roddir inni fel dyletswyddau i'w cyflawni. Mae'r ymatebion yn cynnwys pryderon ynghylch y ddeddfwriaeth ac, yn benodol, dynodi risg heb ystyried y tebygolrwydd o fethiant. Er mwyn gwella'r gwaith o asesu'r ffordd orau o sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr gan berchnogion, peirianwyr a rheoleiddwyr, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd y gwaith hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r

argymhellion a wnaed gan yr Athro Balmforth[3] yn ei adolygiad annibynnol ar ddiogelwch cronfeydd dŵr yn y DU. Disgwylir i'r gwaith hwn bara sawl blwyddyn ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at newidiadau i'r arferion cyfredol, ac at ddiwygio deddfwriaeth neu greu deddfwriaeth newydd. Nid yw'r gwaith hwn yn newid y costau rydym yn mynd iddynt ar hyn o bryd wrth dderbyn, prosesu a monitro gweithgareddau cofrestru a hysbysu, ond bydd yn darparu cyfleoedd i fireinio hyn.

O ran y sylw bod ffioedd is nag yr ydynt ar gyfer cyfundrefnau eraill, mae ein rôl fel rheoleiddiwr ar gyfer Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn un annhechnegol yn bennaf. Nid ydym yn adolygu nac yn gwerthuso cynnwys technegol adroddiadau statudol fel y byddwn wrth ystyried effeithiau cais am drwydded tynnu dŵr er enghraifft. Darperir cynnwys technegol gan beirianwyr cronfeydd dŵr cymwys ac annibynnol a benodir gan Ysgrifennydd Gwladol y DU a Gweinidog Cymru ar y cyd.

Perchennog y gronfa ddŵr sy'n talu costau peirianwyr, yn uniongyrchol, ac mae'r gost hon yn amrywio. Ein rôl yw sicrhau bod perchnogion cronfeydd dŵr yn cadw at y gyfraith ac yn cydymffurfio â hi, a hynny'n bennaf drwy sicrhau eu bod yn penodi'r peirianwyr cywir ac yn gweithredu'r argymhellion a ddarperir ganddynt.

Nododd yr ymatebion fod llawer o gronfeydd dŵr yn darparu buddion cyhoeddus, ac y dylai'r trethdalwr ysgwyddo rhywfaint o'r baich ariannol. Mae 41% o gronfeydd dŵr o dan berchnogaeth breifat ac darparu ychydig iawn o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n bosibl bod buddion amgylcheddol, ond bod posibilrwydd hefyd bod y buddion hynny'n gwrthdaro â'r budd o gael gwared ar gronfeydd dŵr segur ac adfer cynefinoedd wedi hynny. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gydnabod y buddion ategol a ddarperir gan gronfeydd dŵr, yn enwedig y rheini a reolir gan gyrff cyhoeddus, a allai olygu bod modd gwrthbwyso costau. Ni fyddai hyn yn effeithio ar y costau yr eir iddynt ar gyfer y gweithgareddau cofrestru a hysbysu sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth inni ddatblygu cynllun amrywiol yn lle costau monitro cydymffurfedd blynyddol penodedig, a hynny er mwyn cydnabod lefelau gwahanol o beryglon a pherfformiad y gweithredwr.

Nododd yr ymatebion ddiffyg eglurder ynghylch codi tâl am adolygu dynodiad risg. Byddwn yn darparu canllawiau i gyd-fynd â'r strwythur taliadau. Byddwn hefyd yn ystyried yr awgrym y gallai cais am adolygiad canol tymor o ddynodiad risg fod o fudd o ran rhoi gostyngiad cymesur.

Mae pyllau dyfrhau amaethyddol mawr (dros 10,000 metr ciwbig) yn cael eu defnyddio'n aml mewn ardaloedd sychach ac maent yn fwy cyffredin mewn ardaloedd fel dwyrain Lloegr. Mae angen i unrhyw fferm sy'n bwriadu adeiladu cronfa ddŵr uwchben y ddaear ddeall y rhwymedigaeth gynyddol a'r posibilrwydd y bydd yn ofynnol ei rheoleiddio o dan *Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975*, nad yw'n eithrio defnydd amaethyddol oherwydd bod y gyfraith hon yn fater o ddiogelwch y

[3] Independent Reservoir Safety Review Report (publishing.service.gov.uk)

cyhoedd. Mae'r rheol mwy na 10,000 metr ciwbig ond yn berthnasol i storfeydd uwchben y ddaear lle mae dŵr yn cael ei storio y tu ôl i argae, wal neu arglawdd.

E Y prif themâu yn yr ymatebion – Adnoddau dŵr

E1 Trwyddedau tynnu a chronni dŵr

Dywedasoch chi

- Ni ddylai fod rhaid talu i hysbysebu yn Gymraeg.
- Mae'r angen i'r gofyniad i hysbysebu cynlluniau hydro fod yn gymesur â'r rheini yr effeithir arnynt.
- Ffioedd blynyddol ar gyfer perchnogion adeileddau sy'n bodoli eisoes mewn afon.
- Ffioedd blynyddol am gronni dŵr afon yn hytrach na ffi untro.
- Anghytuno bod dau dyniad dŵr o'r un ffynhonnell yn daladwy pan gânt eu hagregu ond na ellir codi tâl amdano ar ei ben ei hun.
- Er bod nifer y ceisiadau y flwyddyn o amaethyddiaeth yn isel, roedd yr aelodau'n cael trafferth deall cyflwyniad y ffioedd arfaethedig.
- Er gwaethaf yr eithriad rhag ffioedd tynnu dŵr o ffynonellau mewndirol am gyfeintiau o lai nag 20 metr ciwbig y dydd, roedd yr aelodau o'r farn y byddai angen cyfeintiau ychwanegol ar ffermwyr yn ystod blynyddoedd sych fel 2022 i gynorthwyo eu busnesau, ond byddent yn cael eu darbwyllo rhag gwneud cais am drwydded tynnu dŵr.
- Er y gall fod nifer cyfyngedig o ymgeiswyr ar gyfer y naill ffi neu'r llall, mae tynnu dŵr a chronni dŵr yn gamau hanfodol i'r busnesau hynny sy'n ymgymryd â'r gweithgaredd.
- Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith y bydd y cynnydd hwn mewn ffioedd am gronni dŵr yn ei chael ar y gwaith o gyflawni cynlluniau i wella'r amgylchedd yng Nghymru i ddileu rhwystrau i fudo pysgod.

Ein hymateb

Mae *Deddf Adnoddau Dŵr 1991* yn ei gwneud yn ofynnol i CNC hysbysebu ceisiadau ac amrywiadau penodol ar gyfer tynnu neu gronni dŵr. Mae angen i'r hysbysebion hyn fod yn Gymraeg ac yn Saesneg gan fod rhaid trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg.

Gall cynnig i dynnu neu gronni dŵr effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd neu ar hawliau defnyddwyr dŵr eraill. Weithiau, mae angen cyhoeddi hysbysiad er mwyn rhoi cyfle i bartïon eraill â diddordeb ddweud wrthym beth yw eu barn neu i ganfod pa effaith y gallai'r cynnig ei chael ar ddefnyddiau cyfreithlon eraill o ddŵr nad ydynt wedi'u trwyddedu neu eu cofrestru gyda ni. Mae'n ofynnol inni ystyried y materion hyn pan fyddwn yn penderfynu a ddylid rhoi trwydded.

Nid yw'r ffioedd parhau blynyddol ar gyfer adeileddau sy'n bodoli eisoes mewn afon a chroniadau afon wedi bod yn rhan o'r adolygiad sylfaenol o gostau eleni. Mae'r codiadau blynyddol i'r ffioedd yn unol â chwyddiant yn cael eu cynnig ar gyfer ffioedd Uned Safonol Tynnu Dŵr yn unig. Mae'n bosibl y bydd ffioedd ffynhonnell tynnu dŵr yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.

Ni fyddai angen trwydded ar gronfa ddŵr a grëwyd cyn 2006. Yn yr achos hwn, codir y gyfradd amrywio am y cais i gael gwared ar y gronfa ddŵr honno. Nid oes gofyniad i wneud cais am y drwydded ac yna gwneud cais i amrywio'r drwydded honno cyn cael gwared ar y gronfa ddŵr. Felly, ymdrinnir â'r cronfeydd dŵr a grëwyd cyn 2006 yn yr un modd â'r rhai a grëwyd ar ôl 2006 (a ddylai fod â thrwydded ar waith). Penderfynasom godi'r un ffi i'r naill a'r llall fel na chosbid y rhai â chronfeydd dŵr a grëwyd cyn 2006, nad oedd angen trwydded arnynt yn gyfreithlon bryd hynny.

Fel yr amlinellwyd yn adrannau A1 i A3 uchod, mae'r rhaglen hon yn ymwneud ag adennill costau llawn gan y rhai sydd angen ein gwasanaethau.

Noder hefyd ein ffioedd diwygiedig ar gyfer gwaredu croniadau dŵr fel yr amlinellir yn adran E3.

E2 Taliadau newydd

<u>Dywedasoch chi</u>

- Ofn y bydd ffioedd yn arwain at groes-gymorthdalu.
- Ni ellir ad-dalu ffioedd ac maent yn rhwystr i ymgeiswyr, yn enwedig mentrau bach a chanolig.
- A fydd proses adolygu? A fyddwch yn gallu penderfynu p'un a yw codi tâl wedi cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau?
- Unwaith eto, mae'n ymddangos bod cynigion CNC yn gweithio yn erbyn polisi ehangach y llywodraeth oherwydd diffyg cyfathrebu a meddwl cydgysylltiedig.
- Rhaid i CNC ddarparu rhagor o fanylion ynghylch pam y cyrhaeddwyd y ffigurau hyn cyn y gwneir unrhyw gynnydd.

<u>Ein hymateb</u>

Drwy gyflwyno'r ffioedd fel y'u cynigir, rydym yn hyderus bod ein gwasanaethau'n cael eu hariannu gan dalwyr y ffioedd o fewn y gyfundrefn honno.

Fel y nodwyd yn adran A uchod, nid ydym yn cael gwneud elw o'n ffioedd.

Nid yw'r strwythur codi tâl haenog yn addas i'r diben mwyach gan nad yw ein hincwm yn ddigon i dalu'n costau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein cyfarwyddo i adennill ein costau yn llawn, ac mae angen inni wneud hynny drwy ein ffioedd.

Bydd y taliadau newydd yn cael eu hadolygu mewn modd amserol a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau fel rhan o'n hadolygiad blynyddol.

Fel yr amlinellwyd yn adrannau A1 i A3 uchod, rydym wedi cael y dasg o adennill costau llawn ar gyfer y gwasanaethau trwyddedu a ddarparwn, ar ôl blynyddoedd lawer o naill ai dim newidiadau neu gynnydd cymharol fach yn ein ffioedd.

E3 Cynlluniau sydd o fudd i'r amgylchedd neu'r cyhoedd

Dywedasoch chi

- Dylid hepgor taliadau ar gyfer ceisiadau ar gyfer cynlluniau amgylcheddol anfasnachol.
- Mae codi tâl ar gyfer croniadau dŵr yn cosbi'r rheini sy'n gwella'r afon.
- Bydd ffioedd yn atal y gwaith o gyflawni cynlluniau pwysig ar gyfer gwneud gwelliannau amgylcheddol.
- Po fwyaf o arian sy'n cael ei wario ar drwyddedau a phrosesau i gyflawni gwelliannau y lleiaf o welliannau sy'n cael eu cyflawni.
- Yn cefnogi'r egwyddor o adennill costau ar gyfer cynigion sy'n niweidiol i'r amgylchedd.
- Dylai fod mwy o hepgoriadau ar gael.
- Mae'r syniad o godi tâl am welliannau amgylcheddol yn groes i'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.
- Mae cyfradd y ffioedd a godir ar weithgareddau sy'n darparu gwelliannau amgylcheddol – megis dileu rhwystrau i fudo pysgod – yn rhy uchel, a dylid eu gwahaniaethu oddi wrth ffioedd eraill ar gyfer y gweithgareddau hyn neu fe ddylent gael hepgoriad.
- Ni ddylid codi tâl am wella'r afon.
- Mae'r amgylchedd yn buddio o'r gweithredu ond mae CNC yn codi tâl hefyd.
- Dylid dilyn strwythur codi tâl hollt Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer gweithgareddau sy'n fuddiol i'r amgylchedd.
- A oes unrhyw lwfans ar gyfer amrywiaeth mewn costau ar gyfer sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol heblaw ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â thrwyddedu rhywogaethau?

Ein hymateb

Ar ôl gwrando ar y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad, rydym wedi newid ein cynllun codi tâl, drwy gynnig gostyngiad ar gyfer cynlluniau sydd o fudd i'r amgylchedd (y trydydd sector, anfasnachol) drwy barhau â'r lefel bresennol o ffioedd.

Bydd y rhain ar gyfer gweithgareddau a wneir yn gyfan gwbl at ddibenion sicrhau buddion amgylcheddol ym maes Adnoddau Dŵr (ac eithrio gweithgareddau i gyflawni Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y cwmni dŵr) at ddibenion cadwraeth natur, dolydd a gwaredu coredau er enghraifft.

Dyma'r ffioedd ar gyfer 2023/24:

- £135 ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr
- £1,500 ar gyfer trwyddedau cronni dŵr neu drwyddedau trosglwyddo.

Gallwn ddarparu ar gyfer hyn oherwydd y gellir defnyddio ffioedd parhau ar gyfer trwyddedau adnoddau dŵr i ariannu gweddill y gost o benderfynu ar y ceisiadau hyn.

E4 Cynlluniau pŵer trydan dŵr

Dywedasoch chi

- Cadwch yr haenau codi tâl presennol.
- Dylid cyfuno trwyddedau ar gyfer tynnu a chronni dŵr ar gyfer cynlluniau pŵer trydan dŵr.
- Mae ffermwyr yn awyddus i ddatblygu mentrau cynhyrchu ynni gwyrdd fel rhan o ystod gytbwys o weithgareddau.
- Mae codi ffioedd uchel yn mynd yn groes i nodau Llywodraeth Cymru i hybu ynni adnewyddadwy.
- Mae lefel y ffioedd yn rhwystr mawr i ddatblygiadau pŵer trydan dŵr.
- Ni ellir ad-dalu ffioedd ac maent yn rhwystr i ymgeiswyr, yn enwedig mentrau bach a chanolig.
- Anghytuno â thalu 50% o gost yr ail drwydded am fewnlif ar wahân ar ffrwd wahanol yn hytrach na 10% ar gyfer cyflenwad trydan dŵr.
- Mae perygl y bydd y cynigion yn atal prosiectau ynni dŵr bach rhag cael eu datblygu.
- Mae'n annheg codi'r un tâl ar brosiectau pŵer trydan dŵr bach â rhai mwy o faint.
- Ni ddylai fod unrhyw newid yn y ffioedd ynni dŵr nes bod yr effeithiau ar ddatgarboneiddio wedi'u hasesu a'u meintioli'n llawn.
- Bydd yn atal cynlluniau bach rhag cael eu datblygu.
- Pam codi tâl pan mae'r dŵr yn cael ei ddychwelyd?
- Rydym yn dadlau'n gryf y byddai'r ddau brosiect hyn [un bach ac un mawr] wedi gofyn am 'fwy neu lai yr un' adnoddau CNC i'w pennu.
- Bydd gan y cynlluniau llai hyn refeniw cyfyngedig pan ddaw eu tariff cyflenwi trydan i ben, a gallai'r baich cost mawr di-alw-amdano hwn achosi i rai ohonynt gau.
- Mae'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn syfrdanol, gyda chynnydd 21 gwaith yn fwy na'r tâl presennol mewn rhai achosion. Nid yw'r ffioedd ymlaen llaw hyn yn fforddiadwy i gynlluniau bach, a ddatblygir fel arfer gan unigolion a chymunedau.
- Yn ogystal, ymddengys mai dim ond diffiniad annelwig sydd o amrywiad 'syml' a 'llawn', a allai fod yn agored i gamddehongli a dryswch goddrychol.

- Yn ystod argyfwng ynni ac argyfwng hinsawdd, nid dyma'r amser iawn i osod rhwystrau economaidd yn ffordd datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd.
- Mae ynni dŵr yn dechnoleg allweddol i Gymru gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy a lleihau carbon uchelgeisiol, gan gynnig y cyd-fuddiannau o ysgogi datblygiad economaidd a chreu swyddi, a bydd yn gwneud hynny mewn modd sy'n bodloni'r amcanion a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Ar yr un pryd, mae'r Deyrnas Unedig ynghanol argyfwng ynni, ac mae llywodraeth y DU yn nodi bod ehangiad cyflym yn y capasiti cynhyrchu domestig yn ateb allweddol ar ei gyfer.
- Mae'n amlwg y bydd graddfa enfawr y cynnydd arfaethedig mewn taliadau ynni dŵr yn arafu neu'n atal datblygiadau newydd o ran ynni dŵr yng Nghymru.
- Bydd y cynnydd arfaethedig yn y tâl ynni dŵr yn arwain at ganlyniadau a fydd yn mynd yn groes yn uniongyrchol i bolisïau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.
- Nid tyniad arall yn unig yw ynni dŵr ond mae'n cynnig manteision ehangach lluosog i economi a rhwydwaith trydan Cymru.

Ein hymateb

Rydym wedi cael ein cyfarwyddo i adennill ein costau rheoleiddio yn llawn. Mae ein costau'n adlewyrchu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i benderfynu ar y trwyddedau hyn ar gyfer cynlluniau pŵer trydan dŵr, y dangosodd ein dadansoddiad eu bod i gyd yn cymryd tua'r un faint o amser i benderfynu arnynt, ni waeth beth yw maint y cynllun. Roedd bodolaeth ardal ddynodedig a'r sensitifrwydd o amgylch y rheini yn fwy arwyddocaol o ran yr amser a dreuliwyd ar benderfynu ar geisiadau nag yr oedd maint y cynllun, felly rydym wedi cynnwys tâl ychwanegol ar wahân ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle bo'n berthnasol.

Bydd ein ffioedd cynnwys gostyngiad aml-weithgaredd lle bydd:

- Gostyngiad o 90% ar gyfer pob gweithgaredd ychwanegol sy'n rhan o'r un gweithrediad ac yn defnyddio'r un ffynhonnell gyflenwi.
- Gostyngiad o 50% ar gyfer pob gweithgaredd ychwanegol sy'n rhan o'r un gweithrediad ac yn defnyddio ffynhonnell gyflenwi wahanol.

Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r amser a arbedir yn ystod y cyfnod penderfynu. Byddai'r rhan fwyaf o geisiadau ar y cyd ar gyfer tynnu dŵr a chronni dŵr yn dod o dan y categori cyntaf ac felly byddai gostyngiad o 90% yn cael ei gymhwyso. Byddai mewnlif ar wahân ar ffrwd wahanol yn elwa ar y gostyngiad o 50%. Mae angen i CNC wneud rhagor o waith i asesu'r effaith ar ffynhonnell wahanol.

Fel yr amlinellir yn adran A uchod, nid oes modd i ni gymorthdalu unrhyw sector busnes unigol.

F Y prif themâu yn yr ymatebion – Ansawdd dŵr

F1 Y gyfundrefn codi tâl newydd

Dywedasoch chi

- Drwy godi'r ffi lawn am benderfynu ar drwydded sydd wedi'i 'thynnu'n ôl', gallai CNC elwa'n annheg o'r sefyllfa hon pan mae'n rhaid i'r ymgeisydd ail-ymgeisio a thalu'r ffi ymgeisio lawn am yr eildro. Nid yw hyn yn gymesur â'r model codi tâl 'amser a chost' na'r model codi tâl lle'r 'llygrwr sy'n talu'.
- Efallai y byddai codi ffi ymgeisio is a gosod ffi parhau flynyddol dros oes y gweithgaredd rhyddhau yn fecanwaith gwell.
- Mae'n bosibl y bydd ymgeisydd o blaid bwrw ymlaen â chais is na'r safon os bydd yn cael ei 'orfodi' i dalu'r ffi lawn os yw'n tynnu cais yn ôl.
- Drwy godi'r ffi lawn am dynnu'n ôl, efallai y bydd CNC yn profi lefel uwch o wrthodiadau.
- Nid yw'n glir ai'r ymgeisydd neu CNC sydd i gwblhau Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd na ph'un a oes angen ffioedd.
- Angen mwy o fanylion am y gofynion ynghylch yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y gellir cyfiawnhau'r tâl hwn yn ogystal â chost y drwydded.
- Mae'r ffioedd ar gyfer tynnu trwydded yn ôl yn 100% ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ansawdd dŵr ond yn gymesur ar gyfer ceisiadau am drwyddedau gosodiadau a thrwyddedau gwastraff.
- Nid yw CNC wedi darparu unrhyw dystiolaeth ynghylch y ffordd y mae'r ffioedd hyn yn cael eu pennu.
- Pryderu y bydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn achosi oedi i'r rhaglen y cytunwyd arni o wella carthffosydd os oes baich sylweddol ar gyllid.
- Nid yw CNC yn esbonio p'un a yw gollyngiadau solet diwastraff yn daliadau newydd neu'n rhai sy'n bodoli eisoes. Ar adeg o argyfwng, byddai'n ymddangos yn briodol rhoi sylw iddo drwy randdirymiad yn hytrach na threfn drwyddedu feichus a chostus CNC.
- Mae cynnydd mewn ffioedd yn peri pryder i sefydliadau mwy o faint sydd â chydsyniadau rhyddhau lluosog, a allai gael effaith ar fuddsoddiad.
- Bydd cynnydd sylweddol yn y ffioedd ar gyfer gorlifoedd carthffosydd cyfun yn amharu ar yr amrywiadau sydd eu hangen i'w gorfodi.
- Dylai fod hepgoriadau ar gael ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy lleol.
- Gobeithio y bydd cynnydd mewn ffioedd yn lleihau llygredd mewn afonydd.
- Cwestiynu p'un a fydd y cynllun taliadau newydd yn caniatáu ar gyfer unrhyw amrywiad mewn costau yn achos cyrff anllywodraethol amgylcheddol, ac eithrio ar gyfer trwyddedau rhywogaethau?
- Dylid cyflwyno hepgoriadau ar gyfer gwelliannau i afonydd neu bysgodfeydd, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â gwella nodweddion ACAau / SoDdGAau.

- Dylid hepgor codi ffioedd uwch am waith a wneir gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol neu Fyrddau Rheoli Maethynnau, lle ymgymerir â'r gwaith er mwyn mynd i'r afael â gormodedd o faetholion mewn afonydd ACA, ac i wella ansawdd afonydd yn gyffredinol.
- Mynegodd yr aelodau bryder y byddai taliadau uwch i waredu carcasau neu ddŵr golchi i'r tir yn ystod brig o achosion o glefyd anifeiliaid yn cynyddu problemau o ran iechyd anifeiliaid ac ansawdd dŵr ymhellach.
- Hoffem ddeall y rhaglen SRoC yn llawn a'r manteision y mae'n anelu at eu cyflwyno y tu hwnt i'r rhaglen codi tâl bresennol.
- Rydym yn bryderus ynghylch y cynnig codi tâl a sut y mae'r gwahaniaeth o ran adennill costau a ffioedd yn dal i fodoli, er gwaethaf adolygiadau blynyddol ers ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rydym yn bryderus y bydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn peri oedi i'r rhaglen y cytunwyd arni o wella gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol a/neu faich sylweddol ar gyllid.
- Rydym yn cefnogi'n gryf ffioedd uwch am yr holl osodiadau newydd o orlifoedd carthffosiaeth cyfunol, nad ydym yn credu eu bod yn ateb derbyniol i ddarparu rhwydwaith carthffosiaeth modern.
- Gofynnwn i CNC roi rhywfaint o ystyriaeth i hepgoriadau ar gyfer pob gwaith lle cyflawnir gwelliannau i'r amgylchedd. Mae hyn yn cyfyngu ar gwmpas y gwaith gwella yng Nghymru.

<u>Ein hymateb</u>

Fel y nodwyd yn ein dogfennau ymgynghori, ategir ein ffioedd arfaethedig gan y dystiolaeth a gyflwynwyd o'n gweithgareddau gwaith. Fe wnaethom adolygu a herio'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni pob rhan o'r broses o benderfynu ar drwydded, o gofnodi cais i'r gwaith o'i asesu, adolygiad gan gymheiriaid a dyroddi'r drwydded. Drwy wneud hyn bu'n bosibl llunio modelau cost ar gyfer pob math o drwydded. Lle mae ein hadolygiad wedi nodi arbedion effeithlonrwydd neu arbedion effeithlonrwydd sydd eisoes ar waith, fe wnaeth yr wybodaeth hon lywio ein cynigion o safbwynt lleihau lefel y cynnydd yn hytrach nag arwain at unrhyw ostyngiad yn lefel y ffioedd a gynigir. Rydym wedi ceisio cadw ffioedd mor isel â phosibl wrth fynd i'r afael â'r diffyg.

Mae ein model codi tâl yn seiliedig ar yr amser a dreulir, ac felly'r costau yr ydym yn mynd iddynt wrth ddarparu ein gwasanaethau. Rydym yn parhau i fod o'r farn, os bydd ymgeisydd yn penderfynu tynnu cais yn ôl, y dylai CNC gadw digon o arian i dalu am waith sydd eisoes wedi'i wneud. Mae deddfwriaeth yn caniatáu i ni gadw rhywfaint neu'r cyfan o'r ffi ymgeisio.

Ni fyddwn yn cadw'r ffi gyfan ym mhob achos. Bydd hyn yn dibynnu ar y costau cyfartalog yr ydym wedi mynd iddynt erbyn y cam hwnnw, sef y cam 'gwneud yn briodol' neu'r cam 'penderfynu'; 10% os caiff ei dynnu'n ôl cyn y cam 'gwneud yn

briodol'; 100% os caiff ei dynnu'n ôl ar ôl y cam 'gwneud yn briodol' yn achos trwyddedau ansawdd dŵr.

Pan fydd cais a dynnwyd yn ôl neu a wrthodwyd yn flaenorol yn cael ei ailgyflwyno, bydd angen i ni fynd drwy'r un broses o adolygu'r cais oherwydd ein bod yn adolygu'r ffurflen gais am drwydded. Mae hyn yn berthnasol i gyfundrefnau eraill hefyd.

Byddem yn annog ymgeiswyr i wirio bod yr holl waith papur gofynnol yn gywir cyn ei gyflwyno.

Fel y nodwyd yn adran A2, nid ydym yn gallu croes-gymorthdalu na gwneud elw o'n taliadau. Mae'n ofynnol inni geisio adennill costau'n llawn ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Lle rydym yn cynnig cadw swm llawn y ffioedd ymgeisio ar gyfer trwyddedau ansawdd dŵr neu drwyddedau adnoddau dŵr, roedd y penderfyniad i wneud hynny'n seiliedig ar gostau cyfartalog yn y gorffennol ac felly mae'n ddull rhesymol a syml o weithredu ar gyfer cwsmeriaid. Bydd y gyfundrefn diwydiant a'r gyfundrefn gwastraff yn codi tâl yn unol â chost y gwaith sydd wedi'i gwblhau oherwydd bod yr amser a gymerir yn amrywio, ac felly byddai'n rhesymol cadw cyfran o'r tâl i dalu ein costau.

Amlinellir ein rhesymeg ar gyfer taliadau ychwanegol ar gyfer Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn Adran A6.

Mewn perthynas â gwelliannau i garthffosiaeth, mae angen i berchnogion y rhwydweithiau hefyd wneud penderfyniadau busnes ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Nid yw CNC mewn sefyllfa i roi cymhorthdal i fusnesau eraill, mae hyn yn rhywbeth sydd o fewn cylch gwaith y llywodraeth. Rydym wedi cael cyfarwyddyd i adennill costau ein gwasanaethau yn llawn.

Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai'r taliadau a gynigir ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â dip defaid a thaenu ar dir fod fel y'u cynigir. Amlinellwyd y ffioedd newydd a phresennol yn yr ymgynghoriad arnynt, yn Atodiad 2 ar dudalen 15. Mewn achosion o argyfwng cenedlaethol o'r fath, megis yn ystod clwy'r traed a'r genau yn 2001, byddem yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth i ddatrys y sefyllfa, gan gynnwys costau. Mae claddu a llosgi carcasau anifeiliaid bellach wedi'u gwahardd o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, felly byddai hwn yn parhau i fod yn ddewis olaf ar ôl ystyried llwybrau gwaredu eraill.

O dan Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd y DU fel y mae, caniateir gollyngiadau rheoledig.

Fel yr amlinellwyd yn Adran A, bydd adennill costau'n llawn yn ein galluogi i wella ein hadnoddau rheoleiddio a gorfodi, drwy adfer incwm trwyddedu i lefel gynaliadwy, a thrwy hynny leihau'r risg y bydd gweithgarwch anghyfreithlon yn cael effaith ar ein hamgylchedd.

Gan nad ydym ychwaith yn gallu croes-gymorthdalu costau ein gwaith, a'r ffaith nad oes gennym unrhyw opsiynau eraill o ran talu am gostau ein gwasanaethau, mae angen inni godi tâl ar y rheini y mae angen ein gwasanaethau arnynt. Gan fod trwyddedu rhywogaethau yn faes newydd lle codir tâl yng Nghymru, bydd yn parhau i dderbyn cymhorthdal rhannol gan Lywodraeth Cymru.

F2 Mae'r ffioedd newydd yn rhy ddrud

Dywedasoch chi

- Bydd costau yn effeithio ar yr hyn y gall darparwyr carthion ei gyflawni.
- Mae rhai safleoedd trin dŵr yn debygol o weld cynnydd sylweddol mewn ffioedd (dros 10 gwaith yn fwy mewn rhai achosion) wrth ystyried y system fandio risg debygol a ffioedd asesu ychwanegol.

Ein hymateb

Fel yr amlinellwyd uchod, rydym o'r farn bod angen i berchnogion y rhwydweithiau hefyd wneud penderfyniadau busnes ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Ein nod yw adennill costau'n llawn ar gyfer y gwasanaethau rheoleiddio sydd eu hangen.

F3 Dip defaid yn ymledu i'r tir

Dywedasoch chi

- Yn erbyn cynigion ar gyfer ffioedd ar gyfer taenu dip defaid ar dir, gan y byddai'n effeithio ar reoli'r clafr er budd pawb.
- Mae'r costau arfaethedig ar gyfer trwyddedau newydd yn hynod gyfyngedig o safbwynt y ffermwr defaid cyffredin, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau i broffidioldeb y mae'r sector yn eu hwynebu.
- Mae'r costau ar gyfer taenu dip defaid yn sylweddol is na'r ffioedd ar gyfer trwydded gorlifoedd carthffosydd cyfun, sy'n ymddangos yn annheg o ystyried yr effaith negyddol y mae'n ei gael ar ansawdd dŵr, a diffyg rheolaethau.
- Nid yw triniaethau clafr chwistrelladwy yn effeithiol.
- Sut mae cartio dip o amgylch cefn gwlad yn ateb cynaliadwy?
- Gall effeithio ar ansawdd cig oen Cymru a'r enillion o'i allforio.
- Bydd y cynigion yn gyfyngol ac yn atal newydd-ddyfodiaid i'r farchnad rhag defnyddio dip i reoli clafr.
- Mae'r ffioedd gwbl anghymesur. Ni all busnesau fferm fforddio hyn a'r neges gan CNC yw peidiwch â dipio, felly bydd yn anos fyth i reoli'r clafr.
- Pryderon ynghylch cynigion CNC a'r effaith ar Gynllun Cyflenwi Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru 2022-2024, ar gyfer dileu'r clafr.
- Mae costau arfaethedig trwyddedau newydd yn hynod gyfyngedig i'r ffermwr defaid cyffredin, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau i broffidioldeb mae'r sector yn eu hwynebu.
- Gwrthwynebu'n gryf y ffioedd arfaethedig a fydd yn arwain at gostau sydd 10 gwaith yn fwy.
- Dipio defaid yw'r unig ffordd effeithiol o reoli'r clafr a byddai costau cyfyngol yn effeithio ar y gallu i bori defaid sydd er budd cyffredin.
- Gallai'r ffioedd hyn effeithio'n andwyol ar iechyd a lles anifeiliaid.

- Mae'r costau arfaethedig ar gyfer trwyddedau newydd yn hynod gyfyngol i'r ffermwr defaid cyffredin, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau i broffidioldeb y mae'r sector yn eu hwynebu.
- Bu'r aelodau'n cwestiynu p'un a oes angen asesu safle gwaredu dip defaid yn flynyddol a p'un a oes angen ffi barhau, a pham fod ffi am ddod â thrwydded i ben.
- Mae ein haelodau yn deall yr angen am waredu dip defaid yn ddiogel ac yn ofalus ond efallai na fydd bob amser yn bosibl defnyddio cyfleuster gwaredu gwastraff.
- Ffermio defaid yn yr ucheldir yw asgwrn cefn amaethyddiaeth yng Nghymru ac fe'i cyflawnir yn aml gan ffermydd llai sy'n llai abl i ymdopi â chynnydd mawr mewn costau.
- Nid oes asesiad effaith wedi'i gynnal ar y baich ariannol ychwanegol a roddir ar geidwaid da byw o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, ac mae'r grŵp o'r farn bod hwn yn gynhwysiad angenrheidiol a phwysig.
- Mae'r grŵp o'r farn mai dim ond 100% o adennill costau y gallai'r cynnydd afresymol mewn taliadau a gynigir ei gynrychioli os na fu fawr neu ddim ymgais gan CNC i symleiddio prosesau presennol, nodi adnoddau sy'n cael eu gwastraffu, a chael gwared ar aneffeithlonrwydd gweinyddol.
- Ni ymgynghorwyd yn ffurfiol â grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn Llywodraeth Cymru na Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) ar yr effaith a'r risgiau a achosir gan y cynnydd arfaethedig hwn i'w prif raglen i ddileu'r clafr ac mae hyn yn cael ei weld fel amryfusedd sylfaenol.
- Ychydig iawn o safleoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu cynnig cyfleusterau gwaredu, ac mae'r posibilrwydd o gludo llawer iawn o ddip defaid ar y ffordd fawr i'r safleoedd hyn yn golygu perygl amgylcheddol arall.
- Bydd yn cymryd amser i roi atebion amgen arloesol, a dyna pam y byddem yn annog CNC i ystyried moratoriwm ar y cynnydd arfaethedig ar gyfer trwyddedau gwasgaru dip defaid ar y tir.
- Nid yw'r grŵp yn cytuno bod y cynnydd hwn yn cynrychioli'r 'ffioedd iawn yn y lleoedd iawn' na'u bod yn 'deg ac yn briodol', a chred y dylid gohirio unrhyw gynnydd mewn ffioedd am gyfnod o dair blynedd.
- Mae'n siomedig bod y cynigion yn canolbwyntio ar y gwaith o 'adennill costau llawn' ond ymddengys nad oes ganddynt unrhyw awgrymiadau i weithio gyda'r diwydiant defaid i symleiddio/gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau.
- O ystyried bod y rhaglen i ddileu'r clafr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhedeg am dair blynedd, mae angen gohirio unrhyw ffioedd uwch mewn perthynas â dipio defaid tan ddiwedd y rhaglen honno.

<u>Ein hymateb</u>

Rydym yn deall pryderon ffermwyr mewn perthynas â'r clafr. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi dyroddi 37 o drwyddedau taenu tir ar gyfartaledd ar gyfer gwaredu dip defaid bob blwyddyn. Mae traean o'r rhain yn geisiadau am drwydded newydd, a mwy na hanner y ceisiadau yn gofyn am ildio trwydded. Ar sail y ffigurau hyn, rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y gost i'r sector ffermio yn gyffredinol yw tua £55,000 y flwyddyn.

Ar sail data'r Swyddfa Ystadegol Gwladol, mae CNC wedi llunio asesiad effaith yn amcangyfrif y byddai'r codiadau yn y ffioedd ar gyfer taenu dip defaid ar dir yn effeithio ar 0.26% o holl fusnesau amaethyddol Cymru.

Mae cemegau dip defaid yn wenwynig iawn ac fe'u hystyrir yn sylweddau peryglus. Mae diogelu'r amgylchedd rhag sylweddau gwenwynig yn uchel ar ein hagenda. Rydym yn cydnabod bod 8% o gyrff dŵr Cymru wedi methu safonau ansawdd dŵr ar gyfer Diazinon (a ddefnyddir mewn dip defaid) yn 2021. Rhaid eu trin, eu storio a'u gwaredu'n ofalus, gan ofyn am oruchwyliaeth reoleiddiol ofalus er mwyn lleihau'r risg o achosi niwed i'r amgylchedd.

Pan gyflwynir cais am drwydded taenu dip defaid ar dir, mae CNC yn adolygu sawl paramedr er mwyn asesu'r effaith ar yr amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys y llwyth hydrolig (y gyfradd taenu) a'r llwyth cemegol, y math o bridd a dyfrhaen, y parth annirlawn o bridd, y defnydd o'r tir, symudedd sylweddau, ac agosrwydd at dderbynyddion. Adlewyrchir cymhlethdod y broses drwyddedu yn y taliadau arfaethedig, nad yw eu costau wedi'u cynrychioli'n llawn yn ein taliadau ers blynyddoedd lawer.

Bydd gwaredu dip defaid mewn ffordd briodol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i CNC a ffermwyr, er ei bod yn bwysig nodi bod technolegau eraill ar gyfer trin clafr yn dod ar gael. Er enghraifft, ar ffurf pigiadau macrogylchol. Mae dulliau gwaredu priodol eraill ar gael hefyd, mewn cyfleusterau trin gwastraff pwrpasol cofrestredig, megis gweithrediadau dipio symudol. Mae'n bosibl y bydd y cynigion yn cymell defnydd ehangach o'r dulliau hyn yn anuniongyrchol wrth i fusnesau fferm archwilio dewisiadau eraill llai costus yn lle trwyddedau taenu dip defaid ar dir. Rydym ni'n awyddus i weithio gyda'r grŵp gwaredu clafr defaid i gefnogi dulliau amgen i daenu dip defaid ar dir; ymgysylltu gyda'r rhaglen waredu; cefnogi'r cynllun sicrwydd contractwyr dipio defaid yn ogystal â chyfleoedd ymchwil a datblygu, fel y pwysleisiodd CNC yn ei gyflwyniad i'r grŵp, ein prif ffocws yw gwaredu dip defaid.

Ceir nifer o safleoedd trin gwastraff ledled y DU sy'n darparu'r math o driniaeth sy'n ofynnol ar gyfer cemegau dip defaid, ac nid yw'n anghyffredin i wastraff arbenigol orfod cael ei gludo ar draws y DU i'w drin a'i waredu. Mae fframwaith cadarn yn ei le i reoli a symud gwastraff peryglus, er enghraifft, gwastraff fferyllol o'r sector gofal iechyd.

Rydym ni wedi ymgysylltu gyda grwpiau megis y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol i roi cyngor ar gyfleusterau yng Nghymru yr ydym ni'n credu sydd eisoes yn meddu ar y drwydded neu'r technolegau triniaeth gofynnol i drin y gwastraff hwn. Rydym ni wedi eu hannog i ymgysylltu gyda'r cyfleusterau hynny i drafod gofynion y sector.

Yn ogystal, i gydnabod y seilwaith gofynnol sydd ei angen i gefnogi'r broses o waredu gwastraff dip defaid, mae CNC wedi llacio'r rheol i ganiatáu i gontractwyr dipio symudol gael lle storio ychwanegol "mewn lle sydd dan eu rheolaeth" sy'n cynyddu'r swm a ganiateir ar gyfer sectorau eraill yn y ddeddfwriaeth gwastraff.

Nid ydym o'r farn y bydd y ffioedd y byddwn yn eu cyflwyno yn wrthgynhyrchiol i gynlluniau Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y clafr, sy'n uchelgais yr ydym yn ei chefnogi'n llwyr. Fodd bynnag, nid ydym mewn sefyllfa i roi cymhorthdal i fusnesau, sy'n rhywbeth sydd o fewn cylch gwaith y llywodraeth. Mae CNC wedi trafod y cynigion codi tâl gyda swyddogion polisi perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru. Fel y nodir yn A1 uchod, rydym wedi cael y dasg o adfer costau ein gwasanaethau yn llawn. Felly, ni fyddai angen ymgynghori gyda sefydliadau eraill.

Fel yr amlinellir yn ein hymgynghoriad, mae'r rhain yn ffioedd untro ar gyfer ceisiadau newydd. Os ydych chi eisoes yn meddu ar drwydded, nid oes unrhyw ffi ymgeisio pellach oni bai eich bod yn gwneud cais i amrywio'r drwydded.

G Y prif themâu yn yr ymatebion – Trwyddedau rhywogaethau

G1 Tebygol o gael effaith negyddol ar waith, unigolion a sefydliadau ym maes cadwraeth

Dywedasoch chi

- Pryderon y byddai cyflwyno ffioedd ar gyfer trwyddedau rhywogaethau yn cael effaith negyddol ar waith cadwraeth a sefydliadau cadwraeth.
- Ni ddylai unigolion dalu oherwydd y gallai hyn fod yn rhwystr difrifol o ran atal rhanddeiliaid preifat rhag cymryd rhan mewn gwaith cadwraeth, rheoli plâu ac ysglyfaethwyr a rheoli bywyd gwyllt am resymau diogelwch y cyhoedd.
- Nid yw'r ffi o £965 i fusnesau fferm sydd angen trwydded cyn unrhyw fath o arallgyfeirio ar y fferm yn cael ei gefnogi.

Ein hymateb

Nid ydym am i'n ffioedd atal gweithgareddau sydd er budd y rhywogaethau a warchodir neu er budd y cyhoedd. Mae ein cynllun ffioedd arfaethedig ar gyfer trwyddedau rhywogaethau yn cynnwys pedwar categori o 'hepgoriadau ffioedd'. Mae'r rhain yn nodi'r amgylchiadau lle credwn y dylai costau'r gwaith trwyddedu barhau i gael eu hariannu drwy drethiant cyffredinol. Bydd hyn yn ein helpu i reoli'r risgiau o ganlyniadau anfwriadol (cynnydd mewn ffioedd sy'n arwain at effeithiau negyddol ar amgylchedd Cymru), ac i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion polisi.

G2 Hepgoriadau

Dywedasoch chi

- Ansicr lle roedd hepgoriadau yn berthnasol, er enghraifft p'un a fyddent yn berthnasol i newidiadau i drwyddedau.
- Gallai hepgoriadau fod yn anghyfartal ac yn oddrychol a dylent fod yn gymwys mewn achosion heblaw'r rheini a amlinellwyd.
- Gall hepgoriadau fod yn briodol.
- Dylai hepgoriadau hefyd gynnwys newidiadau i drwyddedau, newid ecolegydd ac estyniadau ar gyfer 'Ceisiadau i alluogi datblygiadau gan ddeiliaid tai, datblygiadau a ganiateir neu waith cynnal a chadw eiddo nad oes angen cael cydsyniad cynllunio ar ei gyfer'.
- Pam codi cymaint ar fusnesau bach a pheidio â chodi tâl ar elusennau amgylcheddol?
- Dylid hepgor gwaith ymchwil nad yw'n helaeth sydd o blaid cadwraeth.
- Dylai cymhwyso hepgoriad ar gyfer datblygiadau a ganiateir ar gyfer trwyddedau moch daear.
- Dylai'r cyrff cadwraeth a gweithgareddau arbennig ar gyfer rhyddhau anifeiliaid newydd gael yr un sail cost â thirfeddianwyr.
- Mae ffioedd eang yn anwybyddu'r statws gwarchodedig a roddir i rywogaethau.
- Nid oes unrhyw gymhelliant i nodi a diogelu rhywogaethau.
- Mae'n annheg y byddai busnesau yn talu am weithgareddau addysgol.
- A ydych yn codi tâl am drwyddedau ar gyfer arolygon rhywogaethau ecolegol os ydynt yn ymwneud â gwaith proffesiynol a gwirfoddol?
- Mae cynigion y taliadau ar gyfer trwyddedau rhywogaethau yn amlwg yn annheg (yn enwedig ar BBaChau) ac o bosibl yn atal gwaith addysgol (e.e. STEM a gwaith cadwraeth gwirfoddol).
- Rydym yn croesawu'r hepgoriadau ar gyfer gwaredu rhywogaethau anfrodorol, iechyd a diogelwch a chadwraeth.

<u>Ein hymateb</u>

Roeddem yn teimlo nad codi tâl fyddai'r dull cywir, ac na fyddai er budd y cyhoedd am drwyddedau a ddyroddir ar gyfer:

- Cadwraeth, ymchwil wyddonol, ac addysg.
- Diogelwch y cyhoedd, iechyd y cyhoedd, ac atal difrod difrifol i eiddo.
- Trwyddedau yn ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Datblygiadau gan ddeiliaid tai a datblygiadau i ddarparu cyfleusterau a mynediad i bobl anabl.

Bydd CNC yn penderfynu a gaiff hepgoriad ei gymhwyso i gais, a dim ond lle mai dyna yw prif amcan y gweithgaredd y gall hepgoriad fod yn berthnasol. Os yw hepgoriad yn gymwys i drwydded, ni fydd unrhyw dâl yn cael ei godi am unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Penderfynwyd, os oes angen trwyddedau ar sail elw, y gallai'r cwmnïau dalu tâl. Lle bo hepgoriad yn gymwys, bydd hyn yn parhau i gael ei ariannu drwy Gymorth Grant.

G3 Ffioedd ar gyfer trwyddedau rhywogaethau

Dywedasoch chi

- Dylai ffioedd ar gyfer gwneud newidiadau i drwydded fod yn benodedig.
- Mae'r tâl am fân newidiadau yn rhy uchel, megis newid cyfeiriad, newid y prif drwyddedai, newid yr ecolegydd trwyddedig neu newid yr asiant achrededig trwyddedig yn rhy uchel mewn perthynas â'r gwaith gofynnol, neu dylai fod am ddim.
- Mae angen i gynigion codi tâl fod yn gymesur â maint y datblygiad.
- Dylai'r ffi fod yn benodedig ac yn ddilys ar gyfer pob gweithrediad.
- Ni allwn gefnogi cyflwyno taliadau ar y sail a gynigir gan yr ymgynghoriad.
- Mae angen capio cyfraddau fesul awr ar gyfer ceisiadau mawr neu dylid eu hanfon yn ôl os nad ydynt o'r safon ofynnol.
- Mae costau trwyddedau yn rhy uchel ar gyfer unigolion.
- Anghytuno'n gryf y dylai unigolion dalu am drwyddedau rhywogaethau.
- Dylid dysgu oddi wrth Natural England a chyflwyno 'trwyddedau dosbarth isel' er mwyn hwyluso gwelliannau i brosesau, ond NID ar draul cadwraeth natur.
- Mae costau trwyddedau rhywogaethau yn isel iawn o gymharu â phob math arall o drwydded.
- Mae'r ffioedd ddiangen.
- Nid yw'n ymddangos bod y ffioedd ar gyfer trwyddedau rhywogaethau yn adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau amddiffyniad llawn.
- Ddim yn cytuno â ffioedd ar gyfer gwneud newidiadau i drwyddedau a ffurflenni trwydded.
- A fyddai'n decach codi tâl cyfartalog sy'n llyfnhau achosion cymhleth.
- Byddwn yn croesawu eglurhad pellach ynglŷn â'r rheswm dros y taliadau newydd.
- Effaith annheg ar ddatblygiadau bach gydag clwydfannau unigol.
- Pryder ynghylch taliadau heb eu capio.
- Nodwyd y gallai hyn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr gyllidebu a chodwyd pryderon nad oedd y ffioedd wedi'u capio.
- Bydd codi tâl am newid trwyddedai ar drwyddedau ar gyfer rhywogaethau a warchodir gan Ewrop yn gwneud y broses yn anos.
- Codi mwy o arian drwy ddyfeisio categorïau.
- A ydych yn codi tâl am drwyddedau ar gyfer arolygon rhywogaethau ecolegol os ydynt yn ymwneud â gwaith proffesiynol a gwirfoddol?
- Dylid cynyddu'r taliadau ar gyfer trwyddedau ar gyfer arolygon rhywogaethau er elw.

- Mae’r costau ar gyfer trwyddedau rhywogaethau a warchodir yn rhy uchel, maen nhw wedi neidio o fod yn rhad ac am ddim i gyfradd benodedig o £965.
- Mae’r costau am drwyddedau ar gyfer arolygon personol yn rhy uchel.
- Mae trwyddedau adnewyddu ar gyfer rhywogaethau penodol yn ddrud.
- Mae’r gost am drwyddedau arolwg ecolegydd yn rhy uchel.
- Gwrth-reddfol i fod yn codi tâl am weithrediadau masnachol yn unig, heb esboniad.
- Mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn y gallai trwydded rhywogaethau a warchodir gan Ewrop ei gostio i weithrediad coedwigaeth fasnachol o dan y cynllun newydd.
- Nid yw’n ymddangos bod y ffioedd am drwyddedu rhywogaethau yn adlewyrchu’r adnodd CNC y mae ei angen i sicrhau bod rhywogaethau dynodedig Cymru yn cael eu diogelu’n llawn. Byddem yn argymell system haenog sy’n adlewyrchu, mewn rhai achosion, bod angen y trwyddedau er mwyn symud neu adleoli rhywogaethau yn ystod y broses o wneud gwelliannau eraill i’r amgylchedd.

<u>Ein hymateb</u>

Mae CNC wedi defnyddio egwyddorion adennill costau’n llawn yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* i bennu’r ffioedd arfaethedig. Fel yr amlinellwyd yn adran A2 uchod ac yn ein hymgynghoriad, ein nod yw codi tâl am yr amser a dreulir wrth ddarparu ein gwasanaethau i’r rhai sydd eu hangen, a’r costau o wneud hynny, yn hytrach na rhoi baich ar ffynonellau cyllid eraill megis incwm parhau neu’r pwrs cyhoeddus (Cymorth Grant), a fyddai’n anghynaladwy ac na fyddai’n briodol bellach. Er mwyn cyflawni hyn mewn ffordd deg a chymesur, rydym wedi cynnig codi tâl am yr amser mae’n ei gymryd inni gynnal asesiadau o’r gwahanol fathau o drwyddedau. Mae’r rhaglen yn ymwneud â’n costau ni’n unig ac nid yw’n ymwneud â diogelu rhywogaethau yn gyfreithiol na’n polisïau.

Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer hepgoriadau ar gyfer rhai gweithgareddau, gan gynnwys cadwraeth, ymchwil wyddonol ac addysg.

Rydym wedi cydnabod y pryderon hyn ac wedi edrych ar wahanu mân ddiwygiadau oddi wrth welliannau eraill yn ein model codi tâl. Mae CNC yn awr yn cynnig y byddai’r mân newidiadau hyn bellach yn golygu y codir tâl o £73, ac y codir tâl fesul awr o £125 ar gyfer unrhyw newidiadau eraill.

Gwnaethom benderfynu cyflwyno cyfradd fesul awr ar gyfer rhai trwyddedau er mwyn sicrhau bod costau mor deg â phosibl. Wrth adolygu ceisiadau oddi wrth mentrau coedwigaeth fasnachol a datblygiadau ar raddfa fawr, roedd yr amser a dreuliwyd ar geisiadau yn amrywio oherwydd maint a chymhlethdod cynlluniau. O’r herwydd, byddai codi ffi gyfartalog yn annheg i gynlluniau llai, felly penderfynwyd codi tâl fesul awr. Fel rhan o’r canllawiau codi tâl, byddwn yn darparu ystod ar gyfer costau ymgeisio nodweddiadol ochr yn ochr ag ychydig o enghreifftiau a allai arwain at gostau uwch.

Ceir esboniad llawn pam ein bod wedi cynnig codi tâl am rai gweithrediadau ac nid eraill yn y dogfennau yn ein pecyn ymgynghori gwreiddiol.

G4 Cytuno â'r cynigion a'r hepgoriadau

Dywedasoch chi

Cafwyd cefnogaeth gan rai o'r ymatebwyr i'n cynigion – yn benodol ynglŷn â chodi tâl ar ddatblygiadau mawr am drwyddedau – gyda'r cynnig ar gyfer hepgoriadau ar gyfer cadwraeth heneb a lle mae trwyddedau er lles gorau'r cyhoedd a rhywogaethau a warchodir.

Cydnabuwyd y dylai ymgeiswyr ddisgwyl mwy o gynigion i godi tâl am wasanaethau wrth i arian cyhoeddus ddod o dan fwy o bwysau. Roedd cefnogaeth hefyd i'r hepgoriad ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chadwraeth natur a gweithgareddau sy'n fuddiol i'r amgylchedd yn unig, gan gynnwys cael gwared ar rywogaethau ymledol. Roedd rhywfaint o gytundeb hefyd o ran ein penderfyniad i beidio â chynnig cyflwyno taliadau am saethu adar gwyllt.

G5 Mae angen diffiniadau clir ar gyfer trwyddedau cadwraeth

Dywedasoch chi

- Teimlai rhai o'r ymatebwyr, oherwydd y byddai eu gwaith yn cynnwys gwneud rhai gwelliannau i fioamrywiaeth, y dylid cymhwyso Hepgoriad A ar gyfer 'cadwraeth, ymchwil wyddonol, ac addysg'.
- Codwyd y pwynt hefyd y dylai'r diffiniadau ynghylch trwyddedau cadwraeth fod yn eglur.
- Mae angen y diffiniad pan fo cais yn croesi o fod yn seiliedig ar gadwraeth i fod yn un sy'n ymwneud â choedwigaeth fasnachol yn unig.
- Dylai pob gweithrediad coedwigaeth fasnachol ddod o dan yr hepgoriad hwn.
- Dylid cadw trwyddedau ar gyfer arolygon rhywogaethau at ddibenion masnachol a chadwraeth ar wahân.
- Dylai unrhyw beth sy'n ymwneud â Safon Coedwigaeth y DU ddod o dan yr hepgoriad ar gyfer gweithgareddau ecolegol a chadwraeth.
- Mae'r cynnig yn creu system dwy haen lle gallai CNC ddosbarthu gwaith megis gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a reolir fesul cam fel coedwigaeth fasnachol ond ei llwyrgwympo er mwyn i adfywio naturiol fod yn seiliedig ar gadwraeth.
- Yn credu y dylai CNC ddarparu canllawiau clir ar sut y bydd gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd yn cael eu pennu.

Ein hymateb

Dim ond lle mai dyna yw prif amcan y gweithgaredd y gall hepgoriad fod yn gymwys. Bydd hyn yn cael ei bennu yn ôl y math o gais am drwydded sydd o dan sylw. Ni chodir tâl am drwydded a ddyroddir ar gyfer rheoli coedwigaeth at ddibenion diogelu iechyd a/neu ddiogelwch, atal lledaeniad afiechydon a/neu atal niwed difrifol i dda byw, bwydydd ar gyfer da byw, cnydau, llysiau, ffrwythau, coed sy'n tyfu neu unrhyw fath arall o eiddo neu i bysgodfeydd. Codir tâl am drwyddedau a ddyroddir ar gyfer rhesymau hanfodol eraill sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd, gan gynnwys rhesymau o natur gymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol o'r pwys mwyaf i'r amgylchedd. Nid yw'r mathau o drwyddedau'n newid fel rhan o'r adolygiad hwn, felly os ydych yn gwneud gwaith tebyg dylech wneud cais am yr un math o drwydded ag o'r blaen. Er mwyn gwneud cais am drwydded cadwraeth, rhaid i chi ddarparu cais addas a datganiad dull i ddangos sut y bydd y prif weithgaredd o fudd i'r rhywogaeth.

G6 Angen tryloywder ar gyfer ffioedd newydd

<u>Dywedasoch chi</u>

- Mae angen cyflwyno'r broses mewn modd sy'n dryloyw ac nid yw'n glir bod gan y rheolydd ddigon o dystiolaeth i benderfynu p'un a yw'r broses drwyddedu yn effeithiol ar gyfer coedwigaeth.
- Mwy o eglurder ar ddiffiniadau datblygu (lleol, mawr).
- Dylid darparu system dryloyw o godi tâl lle darperir adroddiadau gweithredu a pherfformiad clir a chanllawiau.
- Angen mwy o eglurhad ynghylch sut y bydd y ffioedd yn cael eu cymhwyso.
- Dylid cynnal adolygiad ffurfiol o ba mor effeithiol yw taliadau newydd.
- A fydd proses adolygu? A fyddwch yn gallu penderfynu p'un a yw codi tâl wedi cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau?

<u>Ein hymateb</u>

Rydym yn adolygu rhai o'n canllawiau ar-lein i ymgeiswyr sy'n ystyried y newidiadau i'r ffioedd. Byddwn hefyd yn gwneud y diffiniadau ar gyfer 'masnachol' ac 'anfasnachol' yn glir, yn ogystal â'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer asesiadau datblygu. Bydd ein holl ffioedd diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar-lein o'r diwrnod cyntaf.

Bydd y taliadau newydd yn cael eu hadolygu'n amserol a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau fel rhan o'n hadolygiad blynyddol.

Nid yw ein cynllun codi tâl arfaethedig yn cynnwys gweithgareddau coedwigaeth uniongyrchol. Ceir rhagor o wybodaeth am drwyddedau rhywogaethau mewn man arall yn y ddogfen ymateb hon.

H Cyngor cyn ymgeisio

Cawsom nifer o ymatebion ynghylch ein cynnig ynglŷn â chyngor cyn ymgeisio i gyfeirio at gyngor a chanllawiau ar ein gwefan, neu i godi tâl am y gwasanaeth pwrpasol sydd ar gael ar hyn o bryd. Ystyrir yma y pwyntiau nad ymdrinnir â hwy uchod.

Dywedasoch chi

- Rhoddir cyngor gan staff heb brofiad.
- Mae'r cyfrifoldeb ar CNC i ddangos bod y costau hyn yn deg, yn gymesur ac yn gystadleuol a'i fod yn gweithio mewn modd effeithlon i gadw ei gostau o redeg y gwasanaeth dewisol hwn mor isel â phosibl.
- Mae'r ffioedd yn aneglur.
- Bydd yn atal cwmnïau rhag chwilio am gyngor.
- Pryderu y bydd y newidiadau hyn yn lleihau cyfathrebu a rhannu syniadau a gwybodaeth sydd, yn y pen draw, yn arwain at y canlyniad gorau posibl pan gyflwynir ceisiadau.
- Mae hyn yn wrthgynhyrchiol.
- Dylai ddibynnu ar ddiben y broses cyn ymgeisio sy'n ofynnol (tai / ynni trydan dŵr ac ati).
- Ar gyfer cynlluniau ynni trydan dŵr, byddai codi ffi gymedrol am gyngor ar geisiadau o fudd i'r ymgeisydd ac i CNC, pe bai'n golygu y gellir sicrhau bod y cais canlyniadol yn canolbwyntio ar fodloni'r materion penodol i safle a chanllawiau CNC.
- Ar gyfer cynlluniau ynni trydan dŵr, byddai cyflwyno ffi gymedrol am gyngor cyn ymgeisio yn werth chweil os gellir rhoi'r gorau i gynllun anaddas cyn gorfod talu ffi ymgeisio lawn sy'n llawer uwch.
- Bydd cyngor cyn ymgeisio ystyrlon yn arwain at gyflwyno ceisiadau o ansawdd gwell y gellir penderfynu arnynt mewn modd mwy effeithlon a chyflym er budd pob parti.
- Dylai fod opsiwn ar gael i ymarferwyr roi eu cyngor cyn ymgeisio eu hunain i CNC trwy ecolegydd proffesiynol neu ymarferydd amgylcheddol cymwys arall.
- Byddai unrhyw gyngor cyn ymgeisio yn dibynnu ar amserlenni a hygyrchedd gwasanaethau.

Ein hymateb

Rydym yn dal i fod o'r farn bod angen inni newid y ffordd yr ydym yn diffinio ac yn cynnig cyngor cyn ymgeisio sylfaenol ar gyfer trwyddedau yr ydym yn codi tâl amdanynt, drwy ffurfioli ein hymagwedd tuag at ddarparu gwasanaeth cyfeirio yn unig. Gallai helpu ymgeiswyr i gwblhau adroddiadau neu gynnal asesiadau o wybodaeth yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio rag-benderfynu neu niweidio ein rôl wrth benderfynu ar gais am drwydded.

Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar y cyngor pwrpasol y gall ymgeiswyr ofyn amdano drwy ein Gwasanaeth Cynghori yn ôl Disgresiwn[4], y codir tâl amdano gan ddefnyddio cyfradd safonol fesul awr. Bydd opsiwn ar gael o hyd i ymgeiswyr gyflogi ymgynghorydd preifat trydydd parti i helpu gyda cheisiadau. Rydym yn parhau i fod o'r farn ei bod yn ddyletswydd ar yr ymgeisydd i ddarparu cais o ansawdd digonol i'w ddatblygu.

I Ffioedd parhau blynyddol ar gyfer 2023/24

Cawsom nifer o ymatebion ynghylch ein ffioedd parhau blynyddol ar gyfer 2023/24, lle rydym wedi cynnig newid ffioedd parhau blynyddol i adlewyrchu pwysau chwyddiant a'r sefyllfa o ddiffyg a ragwelir. Ystyrir yma y pwyntiau nad ymdrinnir â hwy uchod.

Dywedasoch chi

- Dylid ymestyn y dull o ymdrin â thrwyddedau EPR ar gyfer gosodiadau a thrwyddedau EPR ar gyfer gweithrediadau gwastraff i gynnwys trwyddedau ar gyfer gweithgareddau dŵr a thrwyddedau moch a dofednod dwys, er mwyn sicrhau bod CNC yn gallu mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg a chynnal mwy o wiriadau cydymffurfedd ar safleoedd.
- Nid yw safleoedd presennol wedi'u bandio yn yr un ffordd felly nid yw'n dryloyw ac ni allwn gyllidebu ar ei gyfer.
- RHAID i osodiadau rheoli llifogydd yn naturiol â chydsyniad Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd beidio â dioddef o daliadau blynyddol parhaus.
- Dylid rhoi gostyngiadau neu eithriadau i brosiectau sy'n anelu at wella'r amgylchedd naturiol.
- Dylid codi cyfradd premiwm ar brosiectau cronni dŵr neu brosiectau waliau cynnal glannau fel iawndal am y difrod a achosir.
- Nid yw'r unigolyn yn elwa ar dalu'r taliadau parhau.
- Dim digon o ddata i wneud sylwadau.
- Pryder ei bod yn ymddangos bod y ffioedd arfaethedig yn seiliedig ar gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn unig, yn hytrach nag asesiad o faint o ymdrech sydd ei angen ar gyfer cyflawni gweithgareddau rheoleiddio ym mhob cyfundrefn. Mae Cod y Rheoleiddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr seilio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg, a bod fframweithiau asesu risg ar waith er mwyn iddynt dargedu eu hymdrechion. Mae hefyd yn nodi y dylai fod mecanwaith ar waith i ymgynghori ar gynllun y fframweithiau hyn a'u hadolygu'n rheolaidd.

Ein hymateb

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein gwasanaeth i ddatblygwyr (naturalresourceswales.gov.uk)

Rydym wedi penderfynu seilio ein ffioedd parhau ar chwyddiant ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod fel yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn, er mwyn adlewyrchu pwysau chwyddiant a'r sefyllfa o ddiffyg a ragwelir. Efallai y byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach o gostau parhau yn y dyfodol.

Rydym yn codi tâl am ein gweithgareddau trwyddedu a chydymffurfedd yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', sy'n golygu bod ymgeiswyr yn gyfrifol am dalu'r gost o benderfynu ar gais am drwydded ac asesu eu cydymffurfedd â'r amodau diogelu. Mae'r dull hwn yn unol ag Adran 3 o'r Cod Rheoleiddwyr[5] a'n Hegwyddorion Rheoleiddio[6].

Fel yr amlinellwyd yn adrannau B ac C, byddwn yn ymgynghori ar wahân ar yr offeryn bandio a fydd yn disodli system OPRA. Hyd nes y bydd hyn wedi'i gwblhau, ni fyddwn yn newid y ffioedd fel y gall busnesau gael gwell dealltwriaeth o beth fydd y costau iddynt.

Mae'r ffioedd ar gyfer trwydded gweithgarwch perygl llifogydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Rydym yn dal o'r farn bod angen i'n ffioedd gael eu talu gan ddefnyddiwr y gwasanaethau. Ni allwn fforddio ariannu mwy o hepgoriadau nag a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, na rhoi cymhorthdal i waith prosiect.

O ran prosiectau cronni dŵr neu brosiectau waliau cynnal glannau, ni allwn ddefnyddio ein cynllun codi tâl i dalu am iawndal am ddifrod am waith a gyflawnwyd yn gyfreithlon.

Bwriedir i'n ffioedd gyfrannu tuag at gostau rheoleiddio. Bydd pawb sy'n talu'r ffioedd hyn yn cyfrannu at sicrhau chwarae teg yn eu sector, gan leihau'r risg o roi manteision ariannol i'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio. Dim ond trwy waith rheoleiddio effeithiol y gellir cyflawni hyn.

Pan oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i roi ymateb gwybodus i'r ymgynghoriad ac wedi cysylltu â ni, gwnaethom ddarparu rhagor o wybodaeth ar gais. Byddwn yn parhau i ymateb i unrhyw ymholiadau o'r fath. Mae nodau a buddion yr adolygiad hwn wedi'u hamlinellu yn nogfennau ategol yr ymgynghoriad, ac uchod yn adrannau A i H.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad sylfaenol o ffioedd parhau yn y dyfodol a fydd yn cynnwys lefel y gwasanaeth, risg a pherfformiad gweithredwyr.

[5] Cod Rheoleiddwyr (publishing.service.gov.uk)
[6] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

J Sylwadau eraill a gawsom

- Angen deall yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl a pha fanteision ychwanegol y mae'n eu darparu.
- Diolch am ymgynghori ar ffioedd Rheoleiddio CNC ar gyfer 2023/24.
- Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir fel sail i'r gofyniad am drwydded rhywogaethau yn wael, yn hen a heb ei chadarnhau.
- Nid yw'r dystiolaeth sydd ei hangen gyda cheisiadau am drwyddedau rhywogaethau yn berthnasol i rai safleoedd.
- Mae angen gwella'r gwaith o blismona trwyddedu rhywogaethau a warchodir.
- Mae arolygon yn cynhyrchu data pwysig i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt.
- Ffordd o gael ei dalu am wneud dim ar gyfer gosodiadau anniwclear.
- Ni ddylai bwyd o wledydd eraill gael cymhorthdal.
- Mae trwyddedau yn rhy gyfyngol (gwastraff).
- Dylid mynd i'r afael â gwastraff yn y system ddŵr sy'n deillio o Dŵr Cymru yn hytrach nag erlid y ffermwyr.
- Mae cynrychiolaeth wleidyddol ar gyfer rhai ardaloedd yn wael.
- Mae ansawdd dŵr yn bwysig.
- Codi mwy i gyflawni llai.
- Cau CNC i lawr fel pla ar Gymru.
- Mae gan CNC agenda gwrth-goedwigaeth.
- Mae CNC yn gwneud mwy i ddinistrio cynefinoedd naturiol nag y mae ffermwyr yn ei wneud.
- Tanseilio ymddiriedaeth a hyder yn y rheolydd a llesteirio datblygiad cydberthnasau gweithio cadarnhaol wrth symud ymlaen.
- Mae ffermwyr ledled Cymru wedi ymrwymo i fentrau newid hinsawdd a charbon sero net ym maes amaethyddiaeth.
- Parhau â'r arferion presennol.
- Mae'r ffioedd presennol yn wahaniaethol ac yn annheg.
- Wedi gorfod talu ffi ddiangen i arbenigwr pysgod – mae rhwystr naturiol ar waith.
- Nid yw egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn berthnasol i amaethyddiaeth (gyda nifer bach o eithriadau penodol yn achos moch a dofednod) ond mae'n dibynnu ar drethiant cyffredinol.
- Cefnogi blaenoriaethau Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru.
- Mae CNC yn gallu dyfeisio categorïau i godi mwy o arian amdanynt.
- Mae'r costau'n gorbwyso'r camau gweithredu gwirioneddol y mae CNC yn eu cynnal o ran rheoli rhywogaethau yng Nghymru. Mae'r perfformiad presennol yn dangos na fydd ceisiadau'n cael gwerth am arian.
- Mae caniatáu codi tâl ar gyfer trwyddedau rhywogaethau mewn modd dilyffethair (yn enwedig ar sail arolygon a chofnodion sy'n ddegawdau oed fel arfer) yn annheg ac yn wahaniaethol – ni ofynnir i ffermwyr, er enghraifft, wneud cais.

- Mae dull presennol CNC yn rhy wrth-risg.
- Mae system codi tâl a gyflwynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyd-daro â dirywiad sylweddol yn y gwasanaeth.
- Bu aelodau un sefydliad yn holi p'un a oedd CNC wedi cynnal ymarfer o ddifrif i leihau ei gostau busnes ei hun o fewn yr ymarfer modelu oherwydd, er enghraifft, gwelsant gloddwyr drud yn eistedd yn segur am fisoedd ar y tro. Ni ellid cyfiawnhau hyn pe bai rhyw fusnes yn berchen ar y peiriannau neu'n eu rhentu.
- Bu aelodau un sefydliad hefyd yn holi sut yr oedd y gost arfaethedig mor uchel pan oedd prosesu ceisiadau, yn eu profiad nhw, yn ymddangos fel ymarfer pen bwrdd gan aelod o staff CNC mewn swyddfa yn defnyddio data mapio, gyda sicrwydd fferm a thrawsgydymffurfio yn plismona'r drefn yn effeithiol o ddydd i ddydd, oni bai bod problem llygredd yn cael ei hadrodd.
- Mae hefyd yn nodi bod yr asesiad effaith yn seiliedig ar 13,160 o fentrau a nodwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r 24,677 o ffermydd gweithredol yn Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, Cymru 2021, ac y gallai hyn arwain at aflunio'r dadansoddiad yn seiliedig ar drosiant fferm.
- Sylwodd aelodau un sefydliad cyn lleied o amrywiad a oedd yn y ffigwr canrannol ar gyfer costau uniongyrchol o gyfanswm y gost ar draws gwahanol drwyddedau, gan ystyried y gofynion gwahanol o gynhyrchu trwyddedau ar gyfer gwasgaru ar dir, unedau moch a dofednod dwys, a threulio anaerobig.
- Mae llinellau amser byr yn awgrymu bod cynnydd mewn taliadau yn rhywfath o *fait accompli*.

K Newidiadau a wnaed i'n cynllun terfynol o ganlyniad i'r ymgynghoriad

Yn dilyn y broses ymgynghori a'r adborth a gafwyd, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt. Rydym yn parhau i werthfawrogi'r mewnbwn gan randdeiliaid, wedi ystyried y materion a godwyd yn llawn ac wedi nodi ein hymatebion yn y ddogfen hon i esbonio pam yr ydym wedi gwneud y penderfyniad hwn.

- Byddwn yn ymgynghori ar yr offeryn bandio newydd i'w gyflwyno yn lle system OPRA a ddefnyddir i gyfrifo costau ymgeisio ar gyfer gosodiadau.
- Rydym wedi ailystyried cynyddu'r ffioedd ar gyfer rhai o'r ceisiadau am drwydded cronni dŵr gan sefydliadau anfasnachol neu drydydd sector – byddant yn parhau ar lefelau'r ffioedd presennol. Mae'r rhain ar gyfer gweithgarwch anfasnachol a wneir yn gyfan gwbl at ddiben buddion

amgylcheddol o fewn Adnoddau Dŵr (ac eithrio gweithgareddau i gyflawni Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y cwmnïau dŵr).
Y costau hyn yw:
- £135 ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr
- £1,500 ar gyfer trwyddedau cronni dŵr neu drwyddedau trosglwyddo.

- Rydym wedi gwahanu mân newidiadau i drwyddedau rhywogaethau oddi wrth newidiadau eraill yn ein model ffioedd. Mae CNC bellach yn cynnig y codir tâl ar y mân newidiadau hyn ar gyfradd benodedig o £73. Byddai tâl fesul awr o £125 yn cael ei godi am unrhyw newidiadau eraill.

Bydd rhai o'r adolygiadau a'r hepgoriadau arfaethedig yn golygu na fydd CNC yn adlewyrchu egwyddorion adfer costau'n llawn mewn rhai gwasanaethau rheoleiddio.

Nid yw CNC wedi cynnig unrhyw adolygiadau pellach i'r ffioedd rheoleiddio yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Rydym ni'n cydnabod bod ein ffioedd arfaethedig yn digwydd ar yr un pryd â phwysau ariannol eraill, megis cynnydd mewn chwyddiant a phwysau cynyddol o ran costau byw. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli cynlluniau trwyddedu CNC i sicrhau eu bod yn adlewyrchu egwyddorion adfer costau'n llawn yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau a gostyngiad yn sylfaen sgiliau technegol CNC. Yn ogystal, byddai mwy o ddibyniaeth ar ffynonellau incwm eraill megis incwm parhau neu'r pwrs cyhoeddus (Cymorth Grant) i ariannu'r diffyg hwn, dull a fyddai'n anghynaladwy ac na fyddai'n briodol bellach.

Yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd CNC, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud y gwaith sicrwydd angenrheidiol ar y cynigion. Yna, rhoddir cyngor i'r Gweinidog a gwneir penderfyniad wedi hynny. Bydd ffioedd rheoleiddio CNC yn aros ar gyfraddau 2022/23 nes y cyflwynir cynllun codi tâl newydd i gymryd ei le, a byddwn yn rhoi diweddariad i'n cwsmeriaid ynglŷn ag amserlenni cyflwyno.

L Awgrymiadau a gafwyd

Awgrymodd yr ymatebwyr welliannau a fyddai'n gwella effeithlonrwydd CNC yn eu barn nhw. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u rhannu â'r adrannau perthnasol o fewn CNC i'w hystyried ymhellach.

- Dylid ymestyn trwyddedau rhywogaethau o ddwy flynedd i bum neu 10 mlynedd.
- Dylid gweithio gyda diwydiant i nodi a datblygu atebion sy'n darparu budd i CNC a'r diwydiant er mwyn helpu i leihau costau.
- Dylid datblygu Gwasanaeth Cyswllt Fferm i adlewyrchu gwasanaeth Llywodraeth Cymru.
- Gofynnodd un o'r ymatebwyr am wasanaeth llwybr carlam y codir tâl amdano.
- Roedd un o'r ymatebwyr eisiau preifateiddio gwaith rheoleiddio.

- Dylid datblygu templedi cais ‘model’ ar gyfer y diwydiant dofednod, gan gyfuno ymweliadau â ffermydd lle mae ffermydd yn cynnal gweithgareddau lluosog o dan drwyddedau gwahanol.
- Dylai’r Gwasanaeth Cyngor Dewisol fod yn siop un stop, gyda’r cyngor a roddir yn rhwymo CNC heb fod angen craffu gan swyddogion ychwanegol ar y cam ymgeisio.
- Dylid adolygu’r fframweithiau asesu risg presennol yn unol â Chod y Rheoleiddwyr.
- Dylid rhoi gostyngiadau neu eithriadau i brosiectau sy’n anelu at wella’r amgylchedd naturiol.
- Dylid cyflwyno trwyddedau ar gyfer cwmnïau sy’n trin / gwaredu teiars gwastraff.
- Dylid lleihau’r ffioedd ar gyfer gweithgareddau carbon sero net neu weithgareddau cynaliadwy.
- A fydd proses adolygu? A fyddwch yn gallu penderfynu p’un a yw codi tâl wedi cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau?
- Dylai unrhyw gyngor cyn ymgeisio a ddarperir gael ei adlewyrchu yn y broses benderfynu ddilynol.
- Rydym yn cynnig system haenog ar gyfer trwyddedau rhywogaethau sy’n adlewyrchu, mewn rhai achosion, bod angen y trwyddedau er mwyn symud neu adleoli rhywogaethau yn ystod y broses o wneud gwelliannau amgylcheddol eraill.
- Mae rhai o’r ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddir i orfodi trwyddedau yn hen neu ddim yn berthnasol i’r safle.
- Mae’r dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer trwyddedau yn wael, yn hen a heb ei chadarnhau.
- Dylid defnyddio technoleg newydd fel cadwyni bloc.
- Gwnaed mynegiant i weithio gydag CNC i sefydlu sut y gall symleiddio safleoedd syml gyflawni ffi fwy costeffeithiol.
- Dylai CNC archwilio p’un a all proses dau gam sy’n cynnwys rhag-ymgais wedi’i ariannu ac yna cais llawn sy’n dilyn gofynion cyngor a gwybodaeth CNC yn agos wedyn arwain at ffi gyffredinol is a defnydd mwy effeithlon o adnoddau CNC (e.e. sy’n cyfateb i ffi cyn ymgeisio ynghyd ag adnewyddu ar yr un telerau).
- Enghreifftiau o feysydd lle byddai canllawiau pellach a gweithdrefnau clir yn rhoi eglurder: datblygu ffioedd arbennig; gostwng ffioedd os yw CNC o’r farn eu bod yn ‘sylweddol anghymesur’ o ystyried y gwir gostau a threuliau; atebolrwydd i dalu ffioedd; y berthynas rhwng ffioedd ar gyfer trwyddedau am atebion ar sail natur a’r taliadau ‘pwrpasol’; ac eglurder ar y gwahaniaethau mewn taliadau rhwng y cyfundrefnau yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

- Rydym yn sylwi bod esboniadau clir bod amrywiadau gweinyddol a gychwynnwyd gan CNC ar gyfer rhai cyfundrefnau yn rhad ac am ddim, tra nad yw rhai ansawdd dŵr wedi'u hesbonio'n glir.
- Esbonnir y gallai CNC ddefnyddio dyfarniad ynghylch a ddylid dychwelyd rhan o'r ffi neu ddim o'r ffi ar gyfer cais rheoleiddio diwydiant a dynnwyd yn ôl. Byddem yn disgwyl gweld hyn yr un peth ar draws pob elfen o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu gael esboniad am y gwahaniaeth.
- Byddai canllawiau pellach yn fuddiol ynghylch y cyngor cyn ymgeisio ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr.
- Byddai'n ddefnyddiol rhoi enghraifft o bryd y gallai'r llwybr cyn ymgeisio fod yn ddefnyddiol.
- Rydym yn awgrymu y dylid cynnal gwerthusiad annibynnol o'ch cynigion.
- Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, dylai CNC ystyried sut y gellir trwyddedu a monitro'r holl ollyngiadau sy'n cael effaith ar gyrsiau dŵr Cymru, gan adlewyrchu'n gywir y gost i CNC am wneud hyn.

Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar ffioedd

Gellir dod o hyd i'r cynigion manwl fel y'u hamlinellwyd yn yr ymgynghoriad drwy ddilyn y dolenni canlynol.

- Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2023/2024.
- Gosodiadau (gan gynnwys magu moch a dofednod yn ddwys), peiriannau hylosgi canolig a generaduron penodedig a sylweddau ymbelydrol anniwclear.
- Cronfeydd dŵr.
- Rheoli gwastraff ar y safle.
- Trwyddedau rhywogaethau.
- Ansawdd dŵr.
- Adnoddau dŵr.
- Taliadau parhau blynyddol ar gyfer 2023/24.

Atodiad 2 – 'Adroddiad Ymgynghoriad ar Adolygiad Strategol o Godi Tâl Cyfoeth Naturiol Cymru, Ionawr 2023' Gan ECF

Atodiad 3 – Crynodeb o ymatebion

Atodiad 4 – Ymatebion llawn